Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Mesur capasiti ysgolion yng Nghymru

www.cymru.gov.uk











## Canllawiau

Cylchlythyr Llywodraeth Cymru Rhif: 021/2011
Dyddiad cyhoeddi: Hydref 2011
Yn disodli Cylchlythyr Rhif: 09/2006

# Mesur capasiti ysgolion yng Nghymru

**Cynulleidfa** Awdurdodau lleol (ALlau); cyrff llywodraethu ysgolion sefydledig ac ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir; awdurdodau esgobaethol yr eglwys; ysgolion cymunedol yng Nghymru; swyddfa archwilio Cymru.

**Trosolwg** Mae'r ddogfen hon yn diweddaru Cylchlythyr Cynulliad Cenedlaethol Cymru Rhif: 09/2006 *Mesur Capasiti Ysgolion yng Nghymru* er mwyn darparu canllawiau mwy diweddar ac eglur. Er mai'r un yw'r dull â chynt, dylai'r canllawiau llawnach hyn sicrhau fod capasiti a niferoedd derbyn ysgolion yn cael eu cyfrifo yn fwy cyson ledled Cymru. Llawlyfr i ymarferwyr yw'r ddogfen hon y dylid ei darllen bob amser ar y cyd â Chod Derbyn i Ysgolion Llywodraeth Cynulliad Cymru (y Cod Derbyn i Ysgolion), a'r rheoliadau cysylltiedig, sy'n cael eu diweddaru o bryd i'w gilydd, ond ni ddylai gael blaenoriaeth drostynt.

Capasiti ysgol yw nifer y disgyblion y gall gynnig eu haddysgu. Mae'r canllawiau hyn yn disgrifio'r dull o asesu capasiti ysgolion cynradd ac uwchradd a phennu'r niferoedd derbyn priodol yn seiliedig ar y capasiti. Gellir defnyddio'r dull hwn i:

- gynllunio lleoedd ysgol
- adrodd ar leoedd gwag
- pennu niferoedd derbyn ysgolion.

**Camau i'w cymryd** Mae ALlau yn gyfrifol am asesu'r capasiti a'r niferoedd derbyn yn yr holl ysgolion y maent yn eu cynnal, gan gynnwys ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir ac ysgolion sefydledig. Wrth ailgyfrifo capasiti ysgolion a niferoedd derbyn dylent ddefnyddio'r canllawiau diweddaraf hyn.

**Rhagor o wybodaeth** Dylid cyfeirio ymholiadau am y ddogfen hon at:
Is-adran Rheolaeth ac Effeithiolrwydd Ysgolion 3
Yr Adran Addysg a Sgiliau
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
Ffôn: 029 2080 1013 / 029 2082 6065
e-bost: SchoolsManagementDivision3@cymru.gsi.gov.uk

**Copïau ychwanegol** Mae copïau o'r ddogfen ganllaw a'r ffurflenni cyfrifo capasiti ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru yn www.cymru.gov.uk/addysgasgiliau

**Dogfennau cysylltiedig** Gweler Atodiad B.

ISBN 978 0 7504 6141 2
© Hawlfraint y Goron 2011
WG11676

# Cynnwys


Adran 1 – Cyflwyniad i'r fethodoleg 1

Adran 2(a) – Fformiwla ar gyfer asesu capasiti ysgolion cynradd 9

Adran 2(b) – Capasiti ysgolion cynradd: dynodi ystafelloedd 18

Adran 2(c) – Cyfrifo capasiti ysgolion cynradd 22

Adran 3(a) – Fformiwla ar gyfer asesu capasiti ysgolion uwchradd 25

Adran 3(b) – Capasiti ysgolion uwchradd: dynodi ystafelloedd 33

Adran 3(c) – Cyfrifo capasiti ysgolion uwchradd 38

Adran 4 – Pennu nifer derbyn is nag y mae'r dull asesu capasiti yn ei nodi 44

Atodiad A 47

Atodiad B 49

# Adran 1 – Cyflwyniad i'r fethodoleg

## Y Cefndir

1.1 Capasiti ysgol yw nifer y lleoedd sydd ar gael ynddi i ddisgyblion. Mae'r canllawiau hyn yn disgrifio'r dull ar gyfer asesu capasiti pob ysgol brif ffrwd a gynhelir yng Nghymru, gan ddisodli'r holl ddulliau blaenorol o asesu capasiti. Rydym yn ystyried darparu canllawiau ychwanegol ar reoli lleoedd ysgol yn strategol maes o law. Bwriedir i'r dull hwn fod yn ffordd gadarn a chyson o asesu capasiti ysgolion. Bydd capasiti yn cael ei fesur at sawl diben:

- Pan gaiff y capasiti ei rannu â'r nifer perthnasol o grwpiau blwyddyn, bydd yn rhoi'r nifer derbyn penodedig. Mae'r nifer derbyn hwn, pan gaiff ei gynnwys yn y trefniadau derbyn a gyhoeddir, yn pennu nifer y disgyblion i'w derbyn i'r ysgol (fel arfer i'r dosbarth derbyn mewn ysgolion cynradd, ac i flwyddyn 7 mewn ysgolion uwchradd) bob blwyddyn.
- O'i gymharu â'r nifer ar y gofrestr, gall y capasiti ddangos faint o leoedd sydd dros ben mewn ysgol neu faint o leoedd ychwanegol y gallai fod eu hangen mewn ysgol.
- Bydd yr wybodaeth am leoedd ysgol yn cael ei defnyddio fel sail ar gyfer penderfyniadau ynghylch y ffordd orau o ddefnyddio adnoddau cyfalaf ac wrth benderfynu a oes angen cyflwyno cynigion ad-drefnu ai peidio.
- Caiff hefyd ei defnyddio i benderfynu a fydd capasiti ysgol yn cael ei gynyddu i'r fath raddau fel bod rhaid cyhoeddi cynnig statudol i ehangu'r ysgol.

### Cymhwyso

1.2 Mae'r dull o asesu capasiti yn berthnasol i bob ysgol gymunedol, ysgol wirfoddol a gynorthwyir, ysgol wirfoddol a reolir ac ysgol sefydledig yng Nghymru. Nid yw'r dull yn berthnasol i ysgolion meithrin, ysgolion arbennig nac unedau cyfeirio disgyblion.

### Asesu Capasiti

1.3 Yn achos ysgolion cynradd, caiff y capasiti ei gyfrifo ar sail maint yr ystafelloedd a bennir yn 'ganolfannau dosbarth'. Nid yw ystafelloedd arbenigol ac ystafelloedd ategol fel llyfrgelloedd, ystafelloedd TG ac ystafelloedd staff yn cael eu cynnwys wrth gyfrifo, ond rhaid mesur pob un ohonynt. Caiff y gofod yn yr ystafelloedd dosbarth ei gymharu â chyfanswm y gofod sydd ar gael i'w ddefnyddio i weld a oes gormod neu ry ychydig o ofod ar gael i gefnogi'r gweithgareddau addysgu craidd. Y gofod sy'n cael ei neilltuo ar gyfer pob disgybl mewn ystafell ddosbarth yw 1.86m$^2$. Golyga hyn fod ystafell ddosbarth safonol ar gyfer 30 o ddisgyblion yn mesur 56m$^2$ neu ragor, yn unol â Bwletin Adeiladu 99, sy'n nodi bod ystafell ddosbarth safonol o'r maint hwn yn cynnig digon o le ar gyfer y rhan fwyaf o weithgareddau ac o leiaf ddau gyfrifiadur pen desg.

1.4 Yn achos ysgolion uwchradd, caiff y capasiti ei gyfrifo yn yr un modd ar sail maint y gofodau addysgu, ond caiff pob math o ystafell y gellir ei defnyddio i addysgu ei chynnwys wrth gyfrifo. Mae'r cyfrifiad capasiti yn dibynnu ar y math o ystafell, a chaniateir rhagor o ofod i bob disgybl mewn ystafelloedd a ddefnyddir ar gyfer pynciau ymarferol. Nid oes gwiriad rhifyddol yn rhan o'r broses i sicrhau bod digon o ardaloedd ategol, er enghraifft storfeydd a swyddfeydd. Fodd bynnag, mae'r wybodaeth yn cael ei chasglu er mwyn i awdurdodau lleol allu cymharu'r ddarpariaeth yn ysgolion eu hardal, a hynny er mwyn sicrhau bod pob un yn cael eu trin yn yr un modd.

1.5 Cam nesaf y fformiwla yw cymhwyso ffactor ddefnyddio (sy'n amrywio yn ôl ystod oedran yr ysgol) i adlewyrchu'r ffaith na ellir gwneud defnydd llawn o bob ystafell mewn ysgol uwchradd bob amser, a hynny oherwydd yr amrywiaeth o bynciau a addysgir a gwahanol feintiau'r grwpiau addysgu, yn arbennig yn y chweched dosbarth.

1.6 Defnyddir gwahanol ffurflenni asesu ar gyfer ysgolion cynradd ac ysgolion uwchradd. Ceir enghreifftiau o'r ddwy ffurflen asesu, nodiadau cyfarwyddyd a thablau cyfeirio yn y canllawiau. Dylid defnyddio'r capasiti a fesurwyd fel sail ar gyfer cyfrifo nifer derbyn yr ysgol. Ar ddiwedd y broses, mae'n bosibl addasu cyfrifiadau o gapasiti ysgolion cynradd ac ysgolion uwchradd ychydig tuag i lawr er mwyn caniatáu ar gyfer amgylchiadau arbennig.

## Un mesur cyson

1.7 Ni ddylai capasiti ysgol newid llawer o flwyddyn i flwyddyn. Er y bydd rhai awdurdodau o bosibl yn dewis ailgyfrif capasiti yn flynyddol, fel rheol dim ond pan fydd newidiadau ffisegol parhaol yn cael eu gwneud i'r gofod y gellir ei ddefnyddio, neu os bydd yr adeiladau yn cael eu had-drefnu fel bod y defnydd a wneir ohonynt yn newid, y bydd angen diweddaru'r cyfrifiad ar gyfer unrhyw ysgol, er enghraifft:

- [1]Os caiff gofod ei golli neu os caiff mwy o ofod ei ychwanegu.
- Os caiff ystafelloedd eu had-drefnu, gyda gofodau llai yn cael eu cyfuno yn un ystafell fwy neu i'r gwrthwyneb.
- Os caiff cyfarpar newydd ei osod mewn ystafelloedd er mwyn eu defnyddio at ddibenion gwahanol, gan olygu bod y math o ofod wedi newid.
- Os ceir cytundeb i sefydliadau eraill ddefnyddio'r ystafelloedd neu os ydynt yn cael eu defnyddio at ddibenion cymunedol; er enghraifft fel cyfleusterau iechyd cymunedol, neu i gynnal grwpiau chwarae neu sesiynau addysg i oedolion.

1.8 Efallai y bydd angen diwygio'r capasiti mewn amgylchiadau eraill, ee os oes angen i ysgol gynradd sy'n darparu lleoedd meithrin gynyddu nifer y lleoedd sydd ar gael yn sylweddol, a hynny ar frys. Gallai hynny ddigwydd oherwydd bod darparwr

[1] Rheoliad 11(5)o Rheoliadau Addysg (Penderfynu Trefniadau Derbyn) (Cymru) 2006

annibynnol lleol yn cau, a disgyblion meithrin yn cymryd llawer mwy o le yn yr ystafell ddosbarth a fyddai, fel arfer, ar gael i ddisgyblion o oedran ysgol.

1.9 Dylid rhoi gwybod i'r awdurdod lleol am unrhyw newidiadau arfaethedig i ysgol a allai effeithio ar y capasiti er mwyn trefnu bod y capasiti yn cael ei ailgyfrif. Gallai pennaeth neu gorff llywodraethu ysgol hefyd wneud cais am ailgyfrif os byddant o'r farn nad yw cyfrifiad capasiti a nifer derbyn eu hysgol bellach yn adlewyrchu'r ffordd y caiff y gofod ei ddefnyddio.

1.10 Caiff y nifer derbyn ei bennu fel rhan o'r trafodaethau blynyddol i bennu trefniadau derbyn, a rhaid iddo adlewyrchu'r lle sydd ar gael ar gyfer addysgu a dysgu. Os bydd y lle sydd ar gael yn newid rhwng dyddiad pennu a dyddiad cymhwyso'r nifer derbyn, efallai y bydd angen diwygio'r trefniadau derbyn yn ffurfiol (gweler paragraff 1.27). Mae'r gweithdrefnau statudol arferol yn berthnasol os bydd ehangu ysgol yn golygu newid rhagnodedig o dan adran 28 o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 (Deddf 1998).

1.11 Fodd bynnag, os bydd awdurdod derbyn yn cynnig pennu nifer derbyn sy'n is na'r nifer a nodwyd wrth asesu capasiti, rhaid cyhoeddi hysbysiad mewn papur newydd sy'n gwasanaethu'r ardal[2]. Mae'n arfer da i osod copi o'r hysbysiad ar gât yr ysgol a dosbarthu llythyrau i rieni a'r rheini â diddordeb i roi gwybod iddynt am y nifer derbyn arfaethedig. Mae gan rieni a chyrff llywodraethu yr hawl i gyflwyno gwrthwynebiad i Weinidogion Cymru ynglŷn â'u bwriad i bennu nifer is[3]. Mae mwy o fanylion am y broses hon yn Adran 4 o'r canllawiau hyn.

## Y nifer derbyn

1.12 Y nifer derbyn yw nifer y disgyblion y dylid eu derbyn i grŵp oed perthnasol os derbynnir digon o geisiadau am leoedd. Ni ellir gwrthod lle i ddisgyblion hyd nes cyrhaeddir y nifer derbyn. Caiff ei gyfrifo drwy rannu'r capasiti â nifer y grwpiau blwyddyn a fydd yn cael eu haddysgu yn yr ysgol. Gan fod y nifer derbyn yn adlewyrchu gallu'r ysgol i dderbyn disgyblion, dim ond o dan amgylchiadau eithriadol y dylid rhagori ar y nifer hwn. Ar ôl i'r awdurdod derbyn bennu nifer derbyn, ni ddylai dderbyn mwy o blant na'r nifer cyhoeddedig oni bai bod corff llywodraethu'r ysgol a'r awdurdod lleol yn cytuno na fydd derbyn mwy o blant na'r nifer cyhoeddedig hwnnw yn cael effaith andwyol ar yr ysgol yn yr hirdymor, ac na fydd yn effeithio yn andwyol ychwaith ar ysgolion cyfagos. Os bydd angen rhagori ar y nifer derbyn am fwy na dwy flynedd, dylai'r awdurdod lleol, gan ymgynghori â'r Awdurdod Esgobaethol os yn berthnasol, adolygu'r ddarpariaeth o leoedd ysgol yn yr ardal honno.

1.13 Dylai awdurdodau derbyn sy'n gyrff llywodraethu gadw mewn cof y gallai derbyn mwy o ddisgyblion na chapasiti'r ysgol gael effaith niweidiol ar effeithlonrwydd yr addysg a ddarperir i ddisgyblion. Gallai hefyd ddenu disgyblion o ysgolion eraill, ac o ganlyniad gallai fod yn anodd i'r ysgolion hynny gadw digon o athrawon i hwyluso'r gwaith o ddarparu cwricwlwm eang a chytbwys.

---

[2] Rheoliad 11(5) o Reoliadau Addysg (Penderfynu Trefniadau Derbyn) (Cymru) 2006.
[3] Rheoliadau Addysg (Gwrthwynebiadau i Drefniadau Derbyn) (Cymru) 2006.

1.14 Os oes mwy nag un pwynt mynediad, er enghraifft os caiff disgyblion eu derbyn i ysgol gynradd yng Nghyfnod Allweddol 2 yn ogystal ag yn yr oedran Derbyn, mae'n bosibl y bydd gan ysgolion ddau nifer derbyn. O dan amgylchiadau o'r fath bydd angen llenwi dwy ffurflen asesu capasiti. Bydd angen un ffurflen ar gyfer pob oed mynediad perthnasol, gan ystyried y lle ar gyfer babanod ar un ffurflen a'r lle ar gyfer plant iau ar y llall. Dylai'r ffurflenni hefyd adlewyrchu'r defnydd a wneir gan bob cyfnod allweddol o ofod a rennir, os yn briodol.

1.15 Efallai y bydd yn briodol hefyd i ysgolion sydd â dwy ffrwd iaith, lle mae un yn addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg a'r llall yn addysgu drwy gyfrwng y Saesneg, gael dau nifer derbyn. Mewn achos o'r fath byddai angen llenwi ffurflenni capasiti ar sail y defnydd cyfredol sy'n cael ei wneud o'r gofod gan bob ffrwd. Wedi iddynt gael eu cyfrifo, dim ond pe byddai newid sylweddol yn nifer y disgyblion a dderbynnir i bob ffrwd iaith y byddai angen diwygio'r niferoedd derbyn.

## Cyfrifoldebau

1.16 Mae awdurdodau lleol yn mesur pob gofod y gellir ei ddefnyddio ar safle ysgol, gan gynnwys y rheini a ddefnyddir ar gyfer addysgu a'r rheini a ddefnyddir at ddibenion eraill. Mae'r mesuriadau yn cael eu defnyddio ar gyfer creu 'ôl-troed' o'r holl ofod y mae modd ei ddefnyddio.

1.17 Mae awdurdodau lleol yn defnyddio'r mesuriadau hyn i asesu capasiti pob ysgol brif ffrwd a gynhelir yn eu hawdurdod, gan gynnwys ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir ac ysgolion sefydledig. Bydd hyn yn cynnwys:

- Dynodi unrhyw gyfleusterau nad ydynt yn gysylltiedig â'r ysgol neu gyfleusterau ategol nad ydynt i gael eu cynnwys wrth fesur capasiti.
- Dynodi capeli neu ystafelloedd cymunedol lle bo'n briodol.
- Clustnodi a dynodi ystafelloedd sy'n 'ganolfannau dosbarth' mewn ysgolion cynradd neu ystafelloedd addysgu neu astudio mewn ysgolion uwchradd a'u neilltuo i'r categorïau priodol.
- Nodi pan fydd y gwiriad yn dangos bod rhy ychydig neu ormod o le ategol mewn ysgolion cynradd ac ystyried a oes angen ad-drefnu neu ailddynodi ystafelloedd.
- Ystyried a oes unrhyw amgylchiadau arbennig mewn ysgol sy'n awgrymu y dylai'r capasiti a fesurwyd gael ei addasu gan ddefnyddio'r hyblygrwydd y mae'r fformiwla yn caniatáu ar ei gyfer.

1.18 Dylai awdurdodau lleol, felly, gynnal cronfa ddata o ddata asesu capasiti, a'i diweddaru, a dylent sicrhau bod cyfanswm ardal unrhyw gyfleusterau sydd wedi'u heithrio rhag cael eu cyfrif wrth fesur capasiti yn briodol i'r angen. Dylent hefyd roi gwybodaeth i Weinidogion Cymru am leoedd ysgol yn eu hardal, ac am y nifer o leoedd sydd wedi eu llenwi, pan ofynnir am y wybodaeth honno yn flynyddol. Dylai'r wybodaeth hon gynnwys capasiti, nifer(oedd) derbyn a'r nifer ar y gofrestr ar gyfer pob ysgol.

1.19 Gall llywodraethwyr benderfynu y dylai rhan o safle'r ysgol gael ei defnyddio ar gyfer gwasanaethau cymunedol gan gynnwys darpariaeth gofal plant, dysgu fel teulu, iechyd neu ofal cymdeithasol, a sesiynau dysgu i oedolion a dysgu cymunedol. Os bydd llywodraethwyr yn sefydlu cyfleusterau neu wasanaethau o'r fath, neu os byddant yn caniatáu i sefydliadau eraill wneud hynny, gallai'r awdurdod lleol eu dynodi yn ardaloedd sydd wedi'u heithrio rhag cael eu cyfrif at ddibenion asesu capasiti.

1.20 Nid yw ysgolion yn gyfrifol am fesur arwynebedd na chapasiti ond dylid ymgynghori â hwy wrth lenwi'r ffurflen capasiti. Maen nhw'n debygol o gael mewnbwn, er enghraifft wrth bennu'r math o ystafelloedd a'r defnydd a wneir ohonynt. Rhaid i ysgolion hysbysu'r awdurdod lleol ynghylch unrhyw newid ffisegol i'r adeiladau neu i'r defnydd o ystafelloedd a allai olygu bod rhaid newid y mesuriadau o ran arwynebedd neu gapasiti. Mae lle ar y ddwy ffurflen i gynrychiolydd yr awdurdod lleol a Phennaeth yr ysgol (a chadeirydd y corff llywodraethu os yw'r ysgol yn ysgol wirfoddol a gynorthwyir neu yn ysgol sefydledig) lofnodi i ddangos eu bod yn fodlon â'r cyfrifiad. Os bydd unrhyw lofnod ar goll, gallai hyn awgrymu bod rhyw fath o anghytundeb.

1.21 Yn y lle cyntaf, gellid datrys unrhyw anghytundeb yn anffurfiol trwy drafod yn lleol. Bydd Is-adran Rheolaeth ac Effeithiolrwydd Ysgolion Llywodraeth Cymru yn darparu eglurhad o'r weithdrefn capasiti os oes angen. Fodd bynnag, os na ellir dod i gytundeb ag ysgol gymunedol ar ôl ymgynghori'n ffurfiol, ac os bydd yr awdurdod lleol yn pennu'r nifer derbyn sy'n destun yr anghytundeb fel rhan o'r cylch penderfynu trefniadau derbyn blynyddol, mae gan yr ysgol hawl ffurfiol i gyflwyno gwrthwynebiad i Weinidogion Cymru. Dylid cyflwyno gwrthwynebiadau o'r fath o fewn chwe wythnos i'r dyddiad y cafodd yr ysgol wybod fod yr awdurdod lleol wedi penderfynu pennu'r nifer derbyn y ceir anghytundeb yn ei gylch. Mae rhagor o fanylion am amserlen yr ymgynghoriad a'r broses benderfynu a gwrthwynebu i'w cael yn y Cod Derbyn i Ysgolion[4].

1.22 Gall Cyrff llywodraethu ysgolion sefydledig ac ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir benderfynu ar nifer derbyn sy'n wahanol i'r nifer a gyfrifwyd gan yr awdurdod lleol. Cyn gwneud y penderfyniad, dylent ymgynghori â'r awdurdod lleol ac awdurdodau derbyn lleol eraill ar y trefniadau derbyn sy'n cynnwys y nifer derbyn. Ar ôl ymgynghori, os byddant yn penderfynu pennu'r nifer derbyn sy'n destun yr anghytundeb, dylent roi gwybod i'r ymgyngoreion, gan gynnwys yr awdurdod lleol. Bydd gan yr ymgyngoreion 6 wythnos o'r dyddiad y cawsant yr hysbysiad i gyflwyno gwrthwynebiad i Weinidogion Cymru ei ystyried[5].

### 1.23 Amserlen a gweithdrefn ar gyfer pennu niferoedd derbyn[6]

Mae manylion llawn yr amserlen a'r weithdrefn ar gyfer penderfynu trefniadau derbyn wedi'u hamlinellu'n llawn yn y Cod Derbyn i Ysgolion y dylai'r rheini sy'n gyfrifol am y gweithgarwch hwn gyfeirio ato, ond mae crynodeb o'r weithdrefn mewn perthynas â niferoedd derbyn fel a ganlyn:

[4] Cod Derbyn i Ysgolion Llywodraeth Cynulliad Cymru dogfen 002/2009.
[5] Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 adran 90.
[6] Rheoliadau Addysg (Penderfynu Trefniadau Derbyn) (Cymru) 2006.

Mae niferoedd derbyn yn cael eu pennu fel rhan o'r cylch penderfynu trefniadau derbyn blynyddol. Pan fydd awdurdod derbyn yn fodlon bod nifer derbyn ysgol wedi cael ei gyfrifo'n gywir, dylid dilyn y broses ganlynol:

### Ymgynghori

Rhaid i awdurdodau derbyn (hynny yw, awdurdodau lleol a chyrff llywodraethu ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir ac ysgolion sefydledig) ymgynghori ar drefniadau derbyn, gan gynnwys niferoedd derbyn:

- Rhaid i awdurdodau lleol ymgynghori bob blwyddyn ar drefniadau derbyn yr ysgolion hynny y maent yn awdurdod derbyn ar eu cyfer. Wrth ymgynghori, rhaid cynnwys rhestr o niferoedd derbyn pob ysgol gymunedol a phob ysgol wirfoddol a reolir yn ardal yr awdurdod lleol.
- Rhaid i gyrff llywodraethu ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir ac ysgolion sefydledig hefyd ymgynghori ar eu trefniadau derbyn, gan gynnwys nifer derbyn yr ysgol.
- Rhaid peidio â dechrau ar yr ymgynghori cyn 1 Medi y flwyddyn benderfynu. Rhaid iddo ddod i ben erbyn 1 Mawrth y flwyddyn benderfynu. Mae manylion llawn y broses dderbyn i'w cael yn y Cod Derbyn i Ysgolion.

### Penderfynu trefniadau derbyn a'u gwrthwynebu

- Ar ôl i'r awdurdod derbyn ystyried unrhyw ymatebion i'r ymgynghoriad, rhaid iddo bennu'r trefniadau derbyn, gan gynnwys y nifer(oedd) derbyn, gydag addasiadau os yn briodol, erbyn 15 Ebrill y flwyddyn benderfynu.
- O fewn 14 diwrnod i'r penderfyniad, rhaid i'r awdurdod derbyn roi gwybod i'r ymgyngoreion am y trefniadau a benderfynwyd arnynt.
- Os bydd unrhyw awdurdod derbyn am wrthwynebu trefniadau a bennwyd, dylai gyflwyno gwrthwynebiad ysgrifenedig i Weinidogion Cymru o fewn chwe wythnos i dderbyn hysbysiad o'r penderfyniad mewn perthynas â threfniadau derbyn. Er enghraifft, pe byddai awdurdod derbyn wedi gwrthwynebu nifer derbyn a bennwyd gan gorff llywodraethu ysgol wirfoddol a gynorthwyir neu ysgol sefydledig, gallai benderfynu cyflwyno gwrthwynebiad i Weinidogion Cymru o fewn 6 wythnos i gael gwybod am y trefniadau gan y corff llywodraethu.
- Os bydd corff llywodraethu ysgol gymunedol neu ysgol wirfoddol a reolir am wrthwynebu'r nifer derbyn sydd wedi cael ei bennu gan yr awdurdod lleol ar gyfer ei ysgol, dylai gyflwyno gwrthwynebiad ysgrifenedig i Weinidogion Cymru o fewn yr un amserlen.
- Os pennir ar nifer derbyn is na'r nifer a nodwyd gan y dull asesu capasiti, bydd gan rieni yr hawl i gyflwyno gwrthwynebiad i Weinidogion Cymru ynglŷn â'r nifer is hwn o fewn 6 wythnos i gyhoeddi hysbysiad yn y wasg leol. Mae canllawiau ar y broses hon i'w cael yn adran 4.

Os ceir gwrthwynebiad i nifer derbyn, bydd Gweinidogion Cymru yn ystyried y dystiolaeth a gyflwynwyd gan y gwrthwynebydd. Ar ôl ystyried y dystiolaeth, a allai gynnwys datganiad yn nodi pam y gwnaed y gwrthwynebiad, ynghyd â chynlluniau ac asesiad o gapasiti'r ysgol dan sylw, bydd Gweinidogion Cymru yn penderfynu a ddylid derbyn y gwrthwynebiad ac, os felly, i ba raddau. Cyhoeddir y penderfyniad trwy gyfrwng hysbysiad ysgrifenedig i'r holl wrthwynebwyr, ynghyd ag ymgyngoreion statudol y trefniadau derbyn. Nodir y rhesymau dros y penderfyniad yn yr hysbysiad, a gaiff ei gyhoeddi hefyd ar wefan Llywodraeth Cymru yn: www.dysgu.cymru.gov.uk o fewn 14 diwrnod i'r penderfyniad.

1.24 Dylid pennu trefniadau derbyn ysgolion newydd (gan gynnwys y nifer derbyn) yn unol â Rheoliadau Ysgolion Newydd (Derbyniadau) (Cymru) 2006.

**Amrywio niferoedd derbyn**

1.25 Ar ôl i niferoedd derbyn gael eu pennu'n ffurfiol ar gyfer blwyddyn ysgol benodol, ac os na dderbyniwyd unrhyw wrthwynebiadau, ni ellir eu newid ar gyfer y flwyddyn honno oni fydd[7]:

a. Amgylchiadau wedi newid yn sylweddol (ee os bydd tân wedi dinistrio ystafell ddosbarth).
b. Camgymeriad gwirioneddol wedi'i wneud wrth bennu'r trefniadau, neu os bydd unrhyw fanylion wedi'u hepgor neu eu camargraffu, neu os bydd awdurdod derbyn wedi cael gwybod am unrhyw arferion anghyfreithlon wrth bennu'r trefniadau derbyn.
c. Awdurdod derbyn o'r farn bod angen adolygu ei drefniadau derbyn yn sgil penderfyniad a wnaed gan Weinidogion Cymru mewn perthynas ag ysgol arall sydd â'r un trefniadau derbyn neu drefniadau derbyn tebyg; neu.
d. Os bydd angen amrywio'r nifer derbyn a bennwyd i weithredu cynigion statudol cymeradwy a gyhoeddwyd o dan adran 28 o Ddeddf 1998[8].

Byddai penderfyniad Gweinidogion Cymru ynglŷn â beth fyddai yn cael ei ystyried yn newid mawr mewn amgylchiadau yn dibynnu ar y ffeithiau ym mhob achos, ond gall gynnwys sefyllfaoedd pan fo:

- Angen cael gwared ar adeilad sydd mewn cyflwr gwael iawn.
- Caniatâd cynllunio ar gyfer adeiladau dros dro wedi dod i ben, gan olygu bod rhaid cael gwared arnynt.
- Gwaith adeiladu'n cael ei wneud sy'n lleihau'r capasiti dros dro.
- Ysgol arall, neu ran o ysgol arall, yn cael ei hadleoli i ddefnyddio rhywfaint o adeiladau'r ysgol y cynigiwyd amrywio ei chapasiti, ac nad oes angen cyflwyno cynnig statudol ar gyfer ad-drefnu ysgolion yn sgil yr adleoli.

[7] Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 adran 89(5).
[8] Rheoliadau Addysg (Amrywio Trefniadau Derbyn) (Cymru) 2006.

- Angen brys i addasu rhywfaint o adeiladau'r ysgol, at ddibenion yr ystyrir eu bod yn allweddol i fodloni anghenion y cwricwlwm, yn golygu bod capasiti ysgol wedi lleihau.

1.26 Os bydd sefyllfa fel y nodir yn a, b neu c uchod yn codi, gall yr awdurdod gyflwyno cais i Weinidogion Cymru i amrywio'r trefniadau derbyn o dan adran 89(5) o Ddeddf 1998. Os caiff amrywiad o'r fath ei gyfeirio, dylid rhoi gwybod i'r rheini yr ymgynghorwyd â hwy ar y trefniadau derbyn gwreiddiol am yr amrywiad arfaethedig.

1.27 Bydd Gweinidogion Cymru yn ystyried y dystiolaeth a gyflwynwyd gan y sawl a gynigiodd yr amrywiad, a allai gynnwys datganiad am yr achos o blaid yr amrywiad, ynghyd â chynlluniau ac asesiadau o gapasiti'r ysgol cyn ac ar ôl y newidiadau. Ar ôl i benderfyniad gael ei wneud, dylai'r cynigydd roi gwybod i bob ymgynghorai am ganlyniad y penderfyniad ac, os cytunir ar yr amrywiad, y dyddiad y daw i rym.

1.28 Os bydd cynigion statudol ar gyfer ad-drefnu ysgol wedi cael eu cyhoeddi o dan adran 28 o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998, gall awdurdod derbyn amrywio nifer derbyn, os yw amrywiad o'r fath yn angenrheidiol i roi cynigion statudol cymeradwy ar waith, heb ddilyn unrhyw weithdrefnau eraill na chael cymeradwyaeth Gweinidogion Cymru.

# Adran 2(a) – Fformiwla ar gyfer asesu capasiti ysgolion cynradd

## Nodiadau Cyfarwyddyd

Nod y fformiwla yw cynnig asesiad realistig a chyson o gapasiti ysgolion cynradd. Caiff capasiti ysgol ei fynegi fel nifer y lleoedd sydd ynddi i ddisgyblion ac mae'n cael ei ddefnyddio i bennu'r nifer derbyn.

### Dull

2.1 Mae'r lleoedd sydd ar gael i ddisgyblion yn cael eu cyfrif ar sail y gofod yn yr ystafelloedd dosbarth ond **rhaid** rhestru pob gofod yn adeiladau'r ysgol y gellir eu defnyddio. Diben hynny yw sicrhau bod modd gwirio bod digon o le ategol yn yr ysgol a sicrhau nad oes gormod o le nad yw'n cael ei ddefnyddio i addysgu.

Dylid rhestru pob adeilad sydd ar gael i'r ysgol hy:

- Adeiladau a gynhelir gan yr awdurdod lleol, y Corff Llywodraethu neu'r ymddiriedolwyr, neu sy'n eiddo iddynt.
- Adeiladau nas cynhelir fel uchod, ond sydd ar gael i'r ysgol eu defnyddio yn ystod o leiaf 50% o'r wythnos ysgol (nid oes angen rhestru'r rheini sydd ar gael i'r ysgol, neu sy'n cael eu defnyddio gan yr ysgol, am gyfnod llai na 50% o'r wythnos ysgol).

Dylid rhestru gofod sydd ond ar gael i'r ysgol am ran o'r wythnos ar sail pro rata i adlewyrchu'r defnydd gwirioneddol.

### Cywirdeb y mesuriadau

2.2 Dylid mesur gofod mewnol hyd at waliau neu ddrysau mewnol. Gellir diystyru gofod sy'n cynnwys celfi sefydlog pan fo hynny'n briodol. Ni ddylid diystyru cypyrddau symudol neu le storio o dan feinciau nad ydynt yn uwch nag 1 metr, y gellid eu defnyddio fel arwynebedd ar gyfer gweithio.

### Ystafelloedd sy'n cael eu heithrio o'r asesiad capasiti

2.3 Nid oes angen rhestru'r ardaloedd canlynol ar y ffurflen asesu capasiti:

- toiledau a chawodydd;
- ystafelloedd boeleri ac ystafelloedd peiriannau;
- ceginau ac ystafelloedd gweini, a'r storfeydd a'r swyddfeydd cysylltiedig;
- pyllau nofio awyr agored;
- ardaloedd cerdded, gan gynnwys unrhyw goridorau, pen grisiau neu falconi sy'n mesur 2.5$m^2$ neu lai o led, grisiau, lifftiau ac ardaloedd cerdded a rennir mewn mannau sy'n cael defnydd cymysg;

- gofod na ellir ei ddefnyddio fel canolfannau dosbarth am resymau iechyd a diogelwch y cytunwyd arnynt gan yr awdurdod lleol (fel isloriau, siediau neu lofftydd a ddefnyddir ar gyfer storio'n unig).

2.4 Dylid rhestru'r ardaloedd canlynol yn Rhan 1 y ffurflen asesu capasiti ond cânt eu heithrio o'r cyfrifiad capasiti, felly nid oes angen eu mesur yn fanwl:

- Uned AAA, ynghyd â'r swyddfeydd, yr ardaloedd ar gyfer gweithgareddau ymarferol a'r storfeydd cysylltiedig, ar gyfer disgyblion nad ydynt fel arfer yn cael eu haddysgu mewn dosbarthiadau prif ffrwd. Dylai disgyblion sy'n cael eu haddysgu mewn uned o'r fath gael eu heithrio hefyd o'r nifer ar y gofrestr wrth gyfrif y capasiti sydd dros ben.
- Ystafelloedd rhieni neu ystafelloedd y gymuned.
- Ystafelloedd sy'n cael eu defnyddio gan gyrff heblaw'r ysgol yn unig, ee lle a ddefnyddir gan gylch chwarae/Meithrin. Os yw'r cyfleusterau ar gael i'r ysgol am ran o'r amser, dylid rhestru'r gofod hwnnw ar sail pro rata i adlewyrchu'r defnydd gwirioneddol.
- Cyfleusterau ag adnoddau arbennig dynodedig yr awdurdod lleol.
- Cyfleusterau addysg i oedolion dynodedig yr awdurdod lleol.
- Capeli.
- Ystafelloedd dros dro sydd wedi cael eu defnyddio, neu y bwriedir eu defnyddio, am lai na 3 blynedd. Dylai estyniadau y bwriedir iddynt fod yn rhai parhaol gael eu cyfrif at ddibenion capasiti o'r dechrau hyd yn oed os yw'r disgyblion yn cael eu haddysgu mewn adeiladau dros dro yn y lle cyntaf.
- Pyllau nofio dan do.

Llenwch Ran 1 i gofnodi'r ardaloedd hyn, gan gynnwys cyfeirnod yr ystafell a disgrifiad ohoni. Nid oes rhaid nodi'r mesuriadau mewn metrau sgwâr, ond gallai hynny fod yn ddefnyddiol wrth wirio'r cyfrifiad capasiti yn erbyn cynlluniau'r ysgol. Yn ogystal, mae nodi'r mesuriadau yn galluogi'r cyfrifiad capasiti i ddarparu 'ôl-troed' llawn o'r ysgol, yn hytrach nag 'ôl-troed' rhannol.

### Darpariaeth feithrin

2.5 Dylid cynnwys unrhyw ystafell ddosbarth neu fan sy'n cynnwys plant o oed meithrin yn Rhan 2. Bydd hyn yn cynnwys unedau neu ddosbarthiadau meithrin penodedig a'r lle y mae plant o oed meithrin yn ei gymryd mewn dosbarthiadau lle maent yn gymysg â phlant o grwpiau oed eraill Ni fyddem yn disgwyl i ysgolion ag ystod oedran o 4 i 7 neu 4 i11 gynnwys meithrinfa oni bai ei bod yn ddarpariaeth nas cynhelir, ee cylch chwarae. Os yw'r ddarpariaeth gyfan ar gael i'r sector nas cynhelir, dylid ei chynnwys yn rhan 1 ac ni ddylid ei chyfrif fel rhan o gapasiti'r ysgol.

2.6 I gyfrifo'r gofod meithrin mewn dosbarthiadau cymysg, nodwch uchafswm y plant meithrin y disgwylir iddynt fynychu unrhyw sesiwn. Pan fo disgyblion meithrin yn cael eu derbyn fwy nag unwaith yn ystod y flwyddyn, defnyddiwch uchafswm y disgyblion meithrin y disgwylir eu derbyn yn ystod y flwyddyn. Bydd y daenlen yn

cyfrifo faint o ofod a ddefnyddir gan y plant meithrin. Caiff y gofod sy'n weddill mewn ystafell ddosbarth gymysg ei ychwanegu yn awtomatig at Ran 4 y ffurflen asesu capasiti er mwyn i nifer y lleoedd sydd ar gael i ddisgyblion gael ei gyfrifo Ni fyddem yn disgwyl y byddai rhaid ail-gyfrif i adlewyrchu amrywiadau naturiol yn niferoedd y disgyblion; dim ond os bydd cynnydd neu ostyngiad mawr, hirdymor, yng nghyfran y disgyblion meithrin mewn dosbarth cymysg y bydd angen ail-gyfrif.

2.7 Mae'r fformiwla yn caniatáu 2.3$m^2$ i bob disgybl meithrin. Rhestrir cyfanswm y lleoedd meithrin ar wahân ac ni chaiff ei gynnwys fel rhan o gapasiti'r ysgol. Nid oes rhwymedigaeth gyfreithiol yn gysylltiedig â nifer y lleoedd meithrin, fel yn achos y nifer derbyn, ond mae'n fesur defnyddiol o nifer y disgyblion meithrin y gellir sicrhau lle iddynt yn y gofod sydd ar gael. Mae'r nifer yn seiliedig ar leoedd llawnamser: yr awdurdod derbyn sy'n penderfynu a yw'r lleoedd yn cael eu dyrannu ar sail llawnamser neu ran-amser.

### Ardaloedd ategol

2.8 Mewn ysgolion cynradd, ceir y rhan fwyaf o'r lle addysgu mewn canolfannau dosbarth a bydd yr asesiad o gapasiti yn cael ei seilio'n bennaf ar y rhain. Bydd gan yr ysgol ardaloedd ategol hefyd, a ddefnyddir i gynorthwyo'r gweithgareddau addysgu craidd. Fel rheol, ni fydd y gofod yn yr ardaloedd ategol hyn yn rhan o gapasiti'r ysgol ond mae'r fformiwla'n dyrannu "gweithleoedd adnoddau" i'r ardaloedd hyn er mwyn cynnal gwiriadau sylfaenol i sicrhau bod yna ddigon o ofod adnoddau, ond dim gormod ohono. Mewn ysgolion cynradd, mae dau fath o ofod ategol, sef arbenigol neu gyffredinol, a chaiff y lleoedd adnoddau yn y ddau fath o ofod eu cyfrifo mewn ffyrdd gwahanol. Pan fydd ysgol yn derbyn disgyblion ddwywaith, ee i'r Dosbarth Derbyn ac i Flwyddyn 3, gellir rhannu'r ardaloedd adnoddau yn ôl y defnydd gwirioneddol a wneir ohonynt gan bob grŵp oedran neu yn unol â chymhareb y disgyblion ym mhob grŵp. Gellir trin yr ardaloedd ategol a rennir gan y dosbarthiadau meithrin a'r blynyddoedd cynnar yn yr un modd.

2.9 Ceir disgrifiadau o ardaloedd ategol ac ardaloedd adnoddau cyffredinol nodweddiadol isod. Fel rheol, ni fyddai gan ysgol gynradd sydd â llai na 420 o leoedd fwy nag un o bob un o'r ardaloedd a restrir.

2.10 Gallai ardaloedd ategol arbenigol gynnwys y canlynol:

| Math o ofod | Nodweddion ffisegol |
|---|---|
| Pob neuadd (gan gynnwys unrhyw lwyfan) | Neuadd fawr fel arfer (gyda nenfwd uchel), llawr â gorffeniad caled; yn debygol o fod ag ychydig o gelfi yn unig neu ddim o gwbl. Offer fel rheol yn cael ei osod yn ôl y galw. |
| Ystafelloedd bwyta | Gofod bwyta penodedig â llawr y gellir ei olchi; yn debygol o fod yn agos at y gegin neu'r ardal weini; gallai gynnwys celfi bwyta arbenigol, ond ychydig neu ddim celfi neu offer arall. |

| Math o ofod | Nodweddion ffisegol |
|---|---|
| Gofod ar gyfer drama, dawns a cherddoriaeth | Yn cynnwys offer ar gyfer y celfyddydau mynegiannol; gofod mawr o bosibl (nenfwd uchel), offer arwahanu acwstig, system i newid lefel y golau; dim ond celfi ac offer sy'n gysylltiedig â drama (ee blociau llwyfan), clyweledol a/neu gerddoriaeth. |
| Ystafelloedd TGCh | Gofod ar wahân gydag offer arbenigol i ddarparu rhwydwaith a chyflenwad pŵer. Yn cael eu defnyddio ar gyfer TGCh yn bennaf. |
| Llyfrgelloedd | Yn cynnwys silffoedd ar gyfer storio ac arddangos llyfrau; ac offer TGCh a/neu offer clyweledol o bosibl. |
| Gofod ar gyfer gweithgareddau ymarferol arbenigol, fel bwyd neu serameg | Ystafell benodol gydag offer ar gyfer cynhyrchu gwaith clai; gan gynnwys odyn, llawr priodol (fel teils chwarel), a rhywfaint o feinciau sefydlog neu silffoedd a sinc(iau). Ystafell benodol ar gyfer paratoi bwyd: gan gynnwys llawr y gellir ei olchi, rhywfaint o feinciau sefydlog, sinc(iau) ac o leiaf un darn o offer arbenigol wedi'i osod (ee popty sydd wedi'i gysylltu â chyflenwad ynni). |
| Ystafelloedd celf ac ardaloedd gwlyb ar gyfer gweithgareddau ymarferol | Ystafell neu fan penodol gydag offer ar gyfer gweithgareddau celf a chrefft neu weithgareddau ymarferol gwlyb, a ddefnyddir yn bennaf at y diben hwn. |

2.11 Dylid cynnwys ardaloedd arbenigol yn Rhan 3a neu 3b, gan ddibynnu ar eu maint. Mae'r daenlen yn defnyddio gwahanol fformiwlâu i gyfrifo nifer y lleoedd adnoddau ar gyfer ardaloedd o wahanol faint.

2.12 Ystyr ardaloedd adnoddau cyffredinol yw ardaloedd nad ydynt yn ganolfannau dosbarth neu ardaloedd a rennir ar gyfer gweithgareddau ymarferol sydd wrth ymyl canolfannau dosbarth neu ofod arbenigol fel y disgrifir uchod, ac sy'n cael eu cyfrif fel rhan ohonynt. Dylai ardaloedd adnoddau cyffredinol gael eu cynnwys yn Rhan 3c a gallant gynnwys y canlynol:

- Swyddfa'r Pennaeth.
- Y Swyddfa Weinyddol.
- Yr Ystafell Staff.
- Ystafelloedd ar wahân ar gyfer disgyblion AAA, ee ar gyfer disgyblion ag anghenion addysgol arbennig a addysgir mewn dosbarthiadau prif ffrwd fel arall.
- Ystafelloedd sy'n rhy fach i fod yn ganolfannau dosbarth; fel arfer, ystafelloedd sy'n cynnig llai na 15 o leoedd neu sy'n mesur llai na $28m^2$. Mewn amgylchiadau eithriadol lle mae gan ysgolion ddosbarthiadau bach iawn, mae'n bosibl y bydd ystafelloedd bach sydd â llai na 15 o leoedd yn

addas i'w defnyddio fel ystafelloedd dosbarth, a gellir eu nodi yn Rhan 4. Mae taenlen wedi'i haddasu ar gael ar gais at y diben hwn. Serch hynny, os caiff ystafelloedd bach eu grwpio gyda'i gilydd ac os oes modd eu defnyddio fel un man addysgu gellir nodi cyfanswm arwynebedd y gofod hwn yn Rhan 4.

- Ystafelloedd nad ydynt yn addas fel canolfannau dosbarth, ee ardaloedd ar gyfer storio offer neu ddeunyddiau a ddefnyddir wrth addysgu.
- Ystafelloedd storio.
- Ystafelloedd penodol ar gyfer cotiau (gyda meinciau a bachau sefydlog).

2.13 Dylid rhestru cyfeirnod yr ystafell, disgrifiad, ac arwynebedd ($m^2$) pob man ategol yn yr adran briodol yn Rhan 3. Cyfrifir nifer y lleoedd adnoddau ar gyfer pob categori gan y daenlen trwy ddefnyddio'r fformiwlâu canlynol:

| | | |
|---|---|---|
| Arbenigol mawr (dros $75m^2$) | – | (arwynebedd wedi'i rannu â 12.5) + 20 = capasiti disgyblion |
| Arbenigol ($75m^2$ neu lai) | – | (arwynebedd wedi'i rannu â 2.5) = capasiti disgyblion |
| Adnoddau Cyffredinol | – | (area divided by 1.86) = pupil capacity |

2.14 Nid yw ardaloedd ategol yn addas at ddibenion addysgu cyffredinol ac, felly, ni chânt eu cynnwys wrth asesu capasiti. Fodd bynnag, i wirio bod gan ysgol ddigon o ofod adnoddau mae'r daenlen yn cynnal prawf i weld a yw cyfanswm y lleoedd mewn ardaloedd sydd wedi eu dynodi at ddibenion ategol a'r lleoedd adnoddau mewn canolfannau dosbarth o leiaf 30% o gyfanswm y lleoedd sydd ar gael yn yr ysgol. Os yw'r nifer hwn yn brin, caiff y capasiti ei addasu tuag i lawr. Efallai y bydd yr addasiad rhifyddol hwn yn ddigon, ond gallai fod yn fwy priodol i'r awdurdod lleol, gan ymgynghori â'r ysgol, adolygu'r defnydd a wneir o ystafelloedd, a naill ai ychwanegu lle i roi mwy o ofod adnoddau neu glustnodi canolfan ddosbarth y gellir ei haddasu yn fan ategol. Bydd pennu capasiti is, ac felly nifer derbyn is, yn fodd o ysgafnhau'r pwysau ar yr ysgolion hynny sydd â phrinder lle, os nad ystyrir ei bod hi'n briodol ychwanegu capasiti.

2.15 Mae'r fformiwla hefyd yn cynnal prawf i wirio nad oes gormod o ofod nad yw'n cael ei ddefnyddio at ddibenion addysgu mewn ysgol a allai fod yn addas i'w defnyddio fel ystafelloedd dosbarth wedi cael eu dynodi'n amhriodol yn ardaloedd ategol. Os yw llai na 70% o'r holl weithleoedd wedi eu lleoli mewn ystafelloedd dosbarth, caiff y capasiti cyffredinol ei addasu tuag i fyny. Er ei bod yn bosibl y bydd y gwiriad rhifyddol yn ddigon, efallai y bydd awdurdodau lleol, gan ymgynghori â'u hysgolion, yn dymuno ailystyried pa ystafelloedd a fydd yn cael eu cyfrif fel canolfannau dosbarth ac ardaloedd adnoddau ac ailddynodi rhai ardaloedd yn ystafelloedd dosbarth, heb ystyried y defnydd a wneir ohonynt ar hyn o bryd.

## Ardaloedd Addysgu Cyffredinol

2.16 Mae'r fformiwla yn cyfrifo capasiti'r gofod sy'n weddill sy'n addas i'w ddefnyddio fel canolfannau dosbarth (gan gynnwys ardaloedd cynllun agored, ystafelloedd tawel ac ardaloedd ar gyfer gweithgareddau ymarferol sydd wrth ymyl ardaloedd addysgu cyffredinol, neu'n rhan ohonynt). Dylid cynnwys pob man parhaol

yn yr asesiad; dylid diystyru ardaloedd dros dro. Os bwriedir i estyniad fod yn barhaol, dylai gael ei gyfrif o'r dechrau, hyd yn oed os yw'r disgyblion yn cael eu haddysgu mewn adeiladau dros dro yn y lle cyntaf.

2.17 Dylai ystafelloedd mawr ddal dosbarth o 30 o ddisgyblion, oni bai eu bod yn ddigon mawr i ddau grŵp addysgu neu fwy, sy'n cynnwys 30 o ddisgyblion. Os felly, bydd y daenlen yn cofnodi'r lluosrif priodol o 30.

a. Mae arwynebedd pob ystafell neu ofod yn cael ei rannu â $1.86m^2$, gan dalgrynnu i lawr i'r rhif cyfan agosaf i nodi nifer y lleoedd sydd ar gael i ddisgyblion.
b. Caiff lleoedd sy'n weddill mewn gofod â mwy na 30 (neu luosrifau o 30) o leoedd disgyblion eu trin fel lleoedd adnoddau. Er enghraifft, byddai gan ganolfan ddosbarth sy'n mesur $63m^2$ 30 o leoedd disgyblion a 3 o leoedd adnoddau. Cyfrifir y lleoedd adnoddau'n awtomatig.
c. Caiff cyfanswm nifer y lleoedd disgyblion ym mhob canolfan ddosbarth ei gyfrifo i bennu capasiti'r ysgol.
d. Os yw cyfanswm y lleoedd disgyblion mewn canolfannau dosbarth yn fwy na 70% o'r holl leoedd disgyblion a lleoedd adnoddau, gostyngir y capasiti i 70% o'r ffigur hwnnw.
e. Os yw mwy na 30% o'r gweithleoedd wedi eu lleoli mewn ystafelloedd ategol a allai fod yn ystafelloedd dosbarth (hy mae lle ynddynt i 15 neu ragor o ddisgyblion), caiff y capasiti ei gynyddu i 70% o'r gweithleoedd sydd ar gael.
f. Gallwch ddewis dalgrynnu'r nifer derbyn i **lawr** o hyd at 10%, ond dim mwy na 30 o leoedd, mewn achosion lle y byddai'n anodd, oherwydd amgylchiadau arbennig yr ysgol, i dderbyn y nifer a nodwyd (gweler paragraff 2.19).
g. Y nifer derbyn yw'r capasiti, neu'r capasiti a addaswyd, wedi ei rannu gyda nifer y grwpiau blwyddyn yn yr ysgol. Gan fod y ffigur yn adlewyrchu gallu'r ysgol i gynnig lle i ddisgyblion, ni ddylid derbyn mwy o ddisgyblion oni bai bod yna amgylchiadau eithriadol o blaid gwneud hynny.

**2.18 Diffiniadau**

**Canolfan ddosbarth –** Ystafell ddosbarth neu fan sy'n addas i'w defnyddio fel canolfan gofrestru a chanolfan addysgu ar gyfer un dosbarth.

**Canolfannau dosbarth gydag ardaloedd ymarferol/ardaloedd cynllun agored wrth eu hymyl –** Mewn canolfannau dosbarth bach a gynlluniwyd i'w defnyddio gyda rhan o fan addysgu a rennir cyfagos, gellir cyfuno arwynebedd y llawr at ddibenion asesu capasiti os oes modd defnyddio'r ardaloedd gyda'i gilydd ac os oes modd, fel arfer, i'r athro eu goruchwylio'n rhannol o'r ganolfan ddosbarth. Os na ellir eu defnyddio gyda'i gilydd i addysgu dosbarth, dylid eu mesur a'u cynnwys fel ardaloedd ar wahân.

**Neuaddau –** Fel rheol, bydd angen o leiaf un gofod mawr mewn unrhyw ysgol gynradd ar gyfer Addysg Gorfforol, ac ar gyfer cynnal gwasanaethau a pherfformiadau ysgol, a dylid ei nodi fel man ategol ar y ffurflen gapasiti. Mewn un ysgol gyda hyd at 10 dosbarth, bydd 1 neuadd yn ddigon i gynnal yr holl weithgareddau hyn.

**Ysgolion aml-safle –** Yr ysgolion hynny y mae'r awdurdod lleol yn nodi eu bod yn ysgolion aml-safle at ddibenion ei fformiwla gyllido ar gyfer cyllidebau dirprwyedig ysgolion.

**Ystafelloedd dros dro –** ystafelloedd dros dro sydd wedi cael eu defnyddio, neu y bwriedir eu defnyddio, am lai na 3 blynedd. Gellir diystyru ystafelloedd dros dro a fydd yn cael eu symud o fewn tair blynedd i'w gosod. Fodd bynnag, os bwriedir ehangu ysgol yn barhaol, dylid eu cyfrif o'r dechrau, hyd yn oed os yw disgyblion yn cael eu haddysgu mewn ystafelloedd dros dro i gychwyn.

**Ystafelloedd parhaol –** ystafelloedd y bwriedir iddynt fod yn ystafelloedd parhaol o'r cychwyn neu sydd wedi bod ar y safle am 3 blynedd neu fwy. Maent yn cynnwys unrhyw ystafelloedd sydd wedi'u rhoi o'r neilltu a'r rheini mewn unedau dros dro sydd wedi bod (neu sy'n debygol o fod) ar y safle am 3 blynedd neu fwy.

## 2.19 Amgylchiadau Anghyffredin

### *Talgrynnu i lawr ar gyfer amgylchiadau penodol*

Mae'r ffurflen gapasiti yn caniatáu i'r capasiti gael ei dalgrynnu **i lawr** o hyd at 10%, ac felly'r nifer derbyn hefyd, ond o dim mwy na 30 o leoedd, er mwyn ystyried achosion pan fo amgylchiadau arbennig yr ysgol yn golygu bod y capasiti yn gamarweiniol. Gallai amgylchiadau o'r fath gynnwys:

- Ysgolion aml-safle, er enghraifft, lle mae'r adeilad i fabanod yn llai na'r adeilad i blant iau a lle mae dosbarthiad cyffredinol yr ystafelloedd dosbarth yn golygu bod nifer is yn fwy priodol.
- Lle ceir dosbarth derbyn/meithrin cymysg fel arfer, a allai arwain at ganlyniad anarferol.
- Lle mae plant ag anghenion arbennig yn cael eu derbyn, a'u bod angen cyfarpar symudedd neu gyfarpar arall sy'n mynd â thipyn o le, a bod y disgyblion hyn yn cael eu haddysgu ochr yn ochr â'r disgyblion prif ffrwd.
- Lle mae trefn yr ystafelloedd yn afreolaidd, er enghraifft, lle mae cyfran sylweddol o'r ystafelloedd dosbarth yn gallu dal llai na 30 o ddisgyblion.
- Rhesymau iechyd a diogelwch neu ymarferol, er enghraifft, lle mae yna gyfleusterau bwyta bach neu goridorau cul. Fodd bynnag, mewn achosion o'r fath, efallai y byddai'n fwy priodol ail-drefnu'r gofod sydd ar gael er mwyn ei ddefnyddio'n fwy effeithiol.

Ni ddylid defnyddio'r dull talgrynnu oni bai fod yr awdurdod lleol neu gorff llywodraethu'r ysgol, yn achos ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir ac ysgolion

sefydledig, yn gallu cyfiawnhau hynny. Dylid cynnwys nodyn o'r rheswm dros ddefnyddio'r dull talgrynnu ar y ffurflen, er eglurder.

Ni ddylid gorfod talgrynnu i gydymffurfio â'r terfynau ar faint dosbarthiadau oherwydd mae'r fformiwla eisoes yn cynnwys uchafswm o 30 o leoedd disgyblion fesul ystafell ddosbarth. Fodd bynnag, os bydd nifer derbyn yn peri anawsterau o ran bodloni terfyn maint y dosbarth, gellid cynnal archwiliad o'r gofod sydd ar gael i bennu a oes gan yr ysgol ddigon o ofod adnoddau. Os nad oes digon o ofod adnoddau, gellid ystyried dyrannu ystafell o faint addas at ddibenion eraill os bydd hyn hefyd yn hwyluso swyddogaeth yr ysgol i gydymffurfio â'r terfyn.

Ar ôl i nifer derbyn gael ei bennu, dylai'r awdurdod derbyn barchu'r penderfyniad. Ni ddylid derbyn mwy o ddisgyblion na'r nifer cyhoeddedig oni bai bod yna amgylchiadau eithriadol (gweler paragraff 1.12).

### Ysgolion aml-safle

Yn y rhan fwyaf o achosion, dylid defnyddio'r fformiwla ar gyfer ysgolion aml-safle, gan gynnwys ysgolion wedi eu ffedereiddio, fel petai'r ysgol yn un uned, gyda'r nifer derbyn wedi ei dalgrynnu i lawr o hyd at 10% os yw hynny'n briodol. Fodd bynnag, os yw'r awdurdod derbyn yn ystyried bod y nifer derbyn a gyfrifwyd yn dal i fod yn fwy na chapasiti'r ysgol oherwydd yr anawsterau ffisegol arbennig sy'n deillio o'r ffaith bod yr ysgol ar fwy nag un safle, gallai'r awdurdod ystyried cyhoeddi hysbysiad statudol i bennu nifer is na'r nifer a nodwyd gan y cyfrifiad capasiti.

### Ysgolion â mwy nag un flwyddyn dderbyn

Fel rheol, dylid llenwi dwy ffurflen capasiti ar gyfer ysgolion â mwy nag un flwyddyn dderbyn. Dylid gwneud hynny hefyd, os yn briodol, ar gyfer ysgolion â ffrwd cyfrwng Cymraeg a Saesneg, er mwyn cyfrifo nifer derbyn ar wahân ar gyfer pob blwyddyn dderbyn neu ffrwd iaith.

Pan fydd man adnoddau, fel neuadd neu lyfrgell, yn cael ei rannu gan ddisgyblion mewn dwy ffrwd iaith neu rhwng cyfnodau allweddol 1 a 2, gall y man hwnnw gael ei rannu yn ôl y defnydd a wneir ohono gan bob grŵp neu ei rannu yn unol â chymhareb y disgyblion ym mhob grŵp.

### Ysgolion heb neuaddau

Nid oes gan rai ysgolion neuaddau gan y gellir cynnal gweithgareddau corfforol mewn adeiladau eraill nad ydynt yn perthyn i'r ysgol, fel neuadd leol. Os yw cyfleusterau o'r fath ar gael i'r ysgol am lai na 50% o'r wythnos ysgol, nid oes angen eu mesur na'u cynnwys yng nghapasiti'r ysgol.

Os nad oes gan ysgol neuadd ac os nad oes neuadd arall ar gael iddi, gall yr awdurdod ystyried ystafell ddosbarth o faint addas fel neuadd at ddibenion cyfrifo capasiti. Mae hyn yn golygu y gellir ei restru fel man ategol ar y daenlen, yn hytrach na'i chyfrif fel canolfan ddosbarth. Nid oes rhaid defnyddio'r dull hwn ac ni ddylid ei ddefnyddio os bydd yn arwain at ganlyniadau afrealistig o ran capasiti.

### Ystafelloedd amlbwrpas

Os yw man yn cael ei ddefnyddio at fwy nag un diben (er enghraifft, os oes gan ganolfan ddosbarth ardal ar gyfer cyfrifiaduron ac ar gyfer llyfrgell neu os yw'n cynnwys ardal ar gyfer cynnal gweithgareddau ymarferol gwlyb), fel rheol dylid defnyddio'r fformiwla ar gyfer y prif weithgarwch a gynhelir yn yr ystafell. Fodd bynnag, os na fydd hyn yn rhoi canlyniad priodol, gellir rhannu'r man dan sylw a defnyddio'r fformiwla briodol ar gyfer pob rhan.

### Ardaloedd awyr agored

Ni ddylid cyfrif ardaloedd awyr agored fel rhan o gapasiti ysgol. Dim ond pe gellid eu defnyddio fel ardaloedd addysgu sydd ar gael ym mhob tywydd y gellid eu cynnwys. Er enghraifft, gellid cyfrif ardal addysgu a dysgu am yr amgylchedd mewn ystafell wydr gael fel gofod ategol a'i rhestru yn rhan 3 o'r ffurflen.

# Adran 2(b) – Capasiti ysgolion cynradd: dynodi ystafelloedd

## Rhestr Rwydd

| **Ystafell** | **Rhan berthnasol y ffurflen gapasiti** |
|---|---|
| Y Swyddfa Weinyddu | 3c |
| Ystafell Addysg Oedolion neu gyfleuster arbennig arall | 1 |
| Ystafell gelf/deunyddiau >75m2 | 3a |
| Ystafell gelf/deunyddiau ≤75m2 | 3b |
| Atig/llofft | 3b |
| Clyweledol (ystafell deledu) | Heb ei chynnwys |
| Balconi/pen grisiau >2.5m2 | 3c os gellir ei ddefnyddio fel lle ategol |
| Balconi/pen grisiau ≤2.5m2 | Heb ei gynnwys |
| Islawr | Heb ei gynnwys |
| Ystafell boeler/Ystafell beiriannau | Heb ei chynnwys |
| Ffreutur/Ystafell fwyta >75m2 | 3a |
| Ffreutur/Ystafell fwyta ≤75m2 | 3b |
| Ystafell y gofalwr | 3c |
| Ystafell newid | 3c |
| Capel | 1 |
| Ardaloedd cerdded | Heb eu cynnwys |
| Ystafell ddosbarth | 4 |
| Ystafell gotiau (gyda meinciau a bachau sefydlog) | 3c |
| Ystafell gymuned/rhieni | 1 |
| Coridor | Heb ei gynnwys |
| Ystafell ddawns/drama/cerddoriaeth >75m2 | 3a |

| **Ystafell** | **Rhan berthnasol y ffurflen gapasiti** |
|---|---|
| Ystafell ddawns/drama/cerddoriaeth ≤75m2 | 3b |
| Dylunio a thechnoleg >75m2 | 3a |
| Dylunio a thechnoleg ≤75m2 | 3b |
| Ystafell fwyta >75m2 | 3a |
| Ystafell fwyta ≤75m2 | 3b |
| Ystafell drydan/ystafell switsys | Heb ei chynnwys |
| Ardal allanol y Cyfnod Sylfaen i addysgu am yr amgylchedd- os yw'n gaeedig ac yn gallu cael ei defnyddio ym mhob tywydd. | 3c |
| Adnoddau cyffredinol | 3c |
| Campfa ≤75m2 | 3a |
| Campfa >72m2 | 3b |
| Neuadd a llwyfan >75m2 | 3a |
| Neuadd a llwyfan ≤75m2 | 3b |
| Swyddfa'r Pennaeth | 3c |
| Ystafell TGCh >75m2 | 3a |
| Ystafell TGCh ≤75m2 | 3b |
| Gweinydd TG | 1 |
| Cegin, y storfeydd a'r swyddfeydd perthnasol | Heb eu cynnwys |
| Llyfrgell >75m2 | 3a |
| Llyfrgell ≤75m2 | 3b |
| Lifft | Heb ei gynnwys |
| Cyntedd, derbynfa, ardal aros | 3c os gellir ei ddefnyddio fel lle ategol |
| Llofft (yn cael ei defnyddio fel storfa) | Heb eu cynnwys |
| Ystafell feddygol | 3c |

| Ystafell | Rhan berthnasol y ffurflen gapasiti |
|---|---|
| Ystafell gyfarfod | 3c |
| Ystafell gerdd >75m2 | 3a |
| Ystafell gerdd ≤75m2 | 3b |
| Canolfan ddosbarth feithrin, ardal adnoddau meithrin neu fan chwarae | 2* |
| Ardal gynllunio a pharatoi i'w defnyddio gan athrawon | 3c |
| Man chwarae (dan do) ar gyfer CA1 | 3b neu 3c, gan ddibynnu ar y cyfleusterau sydd yno |
| Ardaloedd ymarferol (os ydynt yn agor i ystafell ddosbarth, neu'n rhan ohoni) | 4 – i'w ychwanegu at ardal yr ystafell ddosbarth |
| Ardaloedd ymarferol (os ydynt ar wahân) | 3b neu 3c, gan ddibynnu ar y cyfleusterau sydd ynddynt |
| Ystafell neu fan tawel (os yw'n agor i ystafell ddosbarth neu'n rhan ohoni) | 4 – i'w ychwanegu at ardal yr ystafell ddosbarth |
| Ystafell neu fan tawel (os yw ar wahân) | 3c |
| Ardaloedd awyr agored | Heb eu cynnwys |
| Ystafell ddarllen | 3c |
| Unedau AAA, gydag adnoddau arbennig, swyddfeydd, ardaloedd ymarferol a storfeydd cysylltiedig | 1 |
| Ystafell weini | Heb ei chynnwys |
| Ystafell wyddoniaeth | 3b |
| Siediau | Heb eu cynnwys |
| Ystafell gawod | Heb ei chynnwys |
| Ystafelloedd bach ≤28m2 | 3c |
| Ystafelloedd bach (wedi'u grwpio gyda'i gilydd yn un ystafell | 4 |

| **Ystafell** | **Rhan berthnasol y ffurflen gapasiti** |
|---|---|
| Ystafell arbenigol ee bwyd/serameg >75m2 | 3a |
| Ystafell arbenigol ee bwyd/serameg ≤75m2 | 3b |
| Ystafell Staff | 3c |
| Y Grisiau | Heb eu cynnwys |
| Storfa/ystafell storio | 3c |
| Pwll nofio – awyr agored | Heb ei gynnwys |
| Pwll nofio – dan do | 1 |
| Adeiladau dros dro (sydd wedi cael eu defnyddio neu y bwriedir iddynt gael eu defnyddio am lai na 3 blynedd) | 1 |
| Toiledau | Heb eu cynnwys |
| Ystafell gyfleustodau | 3c |
| Ystafell ar gyfer gweithgareddau ymarferol gwlyb (os nad yw yn ymyl ystafell ddosbarth ac os nad oes modd i'r athro/athrawes oruchwylio'n rhannol o'r ystafell ddosbarth) | 3a neu 3b, gan ddibynnu ar ei maint |
| Ystafell ar wahân i'w defnyddio gan ddisgyblion prif ffrwd ag AAA | 3c |
| Ystafell ysgrifennu | 3c |

* Lle bo disgyblion meithrin yn cael eu haddysgu mewn ystafell ddosbarth gymysg gyda disgyblion derbyn, rhowch uchafswm nifer y disgyblion meithrin sy'n mynychu unrhyw sesiwn yn yr adran berthnasol yn Rhan 2. Bydd y daenlen yn cyfrifo'r gofod a ddefnyddir gan y disgyblion meithrin a chaiff y gofod dros ben yn yr ystafell ddosbarth gymysg ei ychwanegu at ran 4 yn awtomatig er mwyn cyfrifo nifer y lleoedd sydd ar gael i ddisgyblion.

# Adran 2(c) – Cyfrifo capasiti ysgolion cynradd

## Cyfrifo capasiti ysgolion cynradd

**Noder: Mae'r bylchau lle dylid mewnbynnu data wedi eu lliwio'n felyn**

| Enw'r Ysgol | Rhif yr ALl | Rhif yr Ysgol | Ystod Oedran |
|---|---|---|---|
| | | | |

## Rhestr Ystafelloedd

### Rhan 1: Ardaloedd Eithriedig

*Noder: Dylid rhestru yma y ardaloedd hynny o'r ysgol nad ydynt yn cael eu hystyried at ddibenion capasiti. Mae mesuriadau'n ddewisol.*

| Cyf. ystafell | Disgrifiad o'r ystafell | Arwynebedd (m²) |
|---|---|---|
| | | |
| | **Cyfanswm y ardaloedd eithriedig** | |

### Rhan 2: Darpariaeth Feithrin

*Noder: Dylid rhestru yma bob man sy'n cynnwys plant o oed meithrin.*

| Cyf. ystafell | Disgrifiad o'r ystafell | Arwynebedd (m²) | Lleoedd meithrin |
|---|---|---|---|

*Rhannwch y gofod â 2.3m$^2$ i gyfrifo nifer y lleoedd*

| | | |
|---|---|---|
| | Uned feithrin neu ganolfan ddosbarth<br>[a ddefnyddir gan blant o oed meithrin yn unig] | |

*I gyfrifo'r gofod meithrin mewn dosbarthiadau cymysg, nodwch nifer y plant meithrin (x) a maint y gofod (y), fel y nodir.*

| | | *Plant meithrin (x)* | *Maint yr ystafell (y)* |
|---|---|---|---|
| | Ystafell feithrin/derbyn gymysg | | |
| | | *ardal sy'n weddill i'w gyfrif gyda rhan 4* | |

**Cyfanswm yr ardal a'r lleoedd meithrin** *[n]*

### Rhan 3: Ardaloedd Ategol

| Cyf. ystafell | Disgrifiad o'r ystafell | | Arwynebedd (m²) | Cyfanswm lleoedd | *15 lle neu ragor* |
|---|---|---|---|---|---|
| *a* | *Ardaloedd Arbenigol Mawr a Neuaddau (dros 75m²)* | | *(Arwynebedd/12.5)+20* | | |
| | | | | | |
| *b* | *Ardaloedd Arbenigol (75m² a llai)* | | *(Arwynebedd/2.5)* | | |
| | | | | | |
| *c* | *Ardaloedd Adnoddau Cyffredinol* | | *(Arwynebedd/1.86)* | | |
| | | | | | |
| **Cyfanswm yr ardal adnoddau** | | | | | |
| | | | | *[i]* | *[iv]* |

# Mesur Capasiti Ysgolion yng Nghymru

**Rhan 4: Canolfannau Dosbarth** *(Arwynebedd/1.86)*

| Cyf. ystafell | Disgrifiad o’r ystafell | Arwynebedd (m²) | Cyfanswm lleoedd | Lleoedd disgyblion | Lleoedd adnoddau |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | |
| | *Gofod mewn ystafelloedd blynyddoedd cynnar/meithrin cymysg [os yn briodol]* | | | | |
| **Cyfanswm ardal canolfannau dosbarth** | | | | | |
| | | | | *[ii]* | *[iii]* |

Capasiti wedi'i addasu os nad oes digon o ardaloedd adnoddau | | *a*

Capasiti wedi'i addasu os oes gormod o ardaloedd adnoddau | | *b*

Opsiwn i dalgrynnu i lawr o hyd at 10% - gweler y nodiadau cyfarwyddyd | | *c Nifer diwygiedig*

Nifer y grwpiau oedran yn yr ysgol (heb gynnwys y flwyddyn feithrin) | | *d*

Nifer Derbyn a Nodir [a, b neu c wedi'i rannu â d] | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Capasiti'r ysgol** | | **lleoedd disgyblion** | **[dim addasiad]** |
| **Capasiti'r ystafell feithrin [n]** | | **lleoedd meithrin** | |

**Datganiad o Gywirdeb:** Awdurdod Lleol

Cadeirydd Corff Llywodraethu ysgol wirfoddol a gynhelir neu ysgol sefydledig

Pennaeth

Dyddiad Cyfrifo

***Gwnewch yn siŵr bod digon o ardaloedd adnoddau ar gael***
Cyfanswm [i], [ii] + [iii] 0
70% o gyfanswm y gweithleoedd ([i] [ii]+ [iii] *70%) 0
Os yw nifer y gweithleoedd mewn canolfannau dosbarth yn fwy na 70% o gyfanswm y gweithleoedd a'r lleoedd adnoddau, gostyngir y capasiti yn unol â hynny ym mlwch a.

***Gwnewch yn siŵr nad oes gormod o ofod adnoddau o faint canolfannau dosbarth***
[ii] a [iv] * 70% 0
Os yw nifer y gweithleoedd mewn canolfannau dosbarth yn llai na 70% o'r ystafelloedd a all ddal 15 neu ragor o ddisgyblion, cynyddir y capasiti yn unol â hynny ym mlwch b.

# Adran 3(a) – Fformiwla ar gyfer asesu capasiti ysgolion uwchradd

## Nodiadau Canllaw

3.1 Dylid rhestru pob gofod y gellir ei defnyddio yn adeiladau'r ysgol, er na fydd pob ystafell yn cael ei chynnwys wrth gyfrifo'r gofod addysgu.

Dylid rhestru pob adeilad sydd ar gael i'r ysgol, hy:

a) Adeiladau a gynhelir gan yr awdurdod lleol, y Corff Llywodraethu neu'r ymddiriedolwyr, neu sy'n eiddo iddynt.
b) Adeiladau nas cynhelir/nad ydynt yn eiddo fel y nodir uchod, ond sydd ar gael i'r ysgol eu defnyddio am o leiaf 50% o'r wythnos ysgol.

Dylai gofod sydd ar gael i'r ysgol yn ystod rhan o'r wythnos yn unig gael ei restru ar sail pro rata i adlewyrchu'r defnydd gwirioneddol, gan ddefnyddio'r golofn ar gyfer nodi'r amser sydd ar gael.

### Cywirdeb y mesuriadau

3.2 Dylid mesur gofod mewnol hyd at wyneb waliau mewnol neu ddrysau. Gellir diystyru ardaloedd lle mae cypyrddau storio wedi'u gosod pan fo hynny'n briodol. Ni ddylid diystyru lleoedd storio nad ydynt yn uwch nag 1 metr, er enghraifft cypyrddau o dan feinciau, sy'n darparu arwynebedd y gellir ei defnyddio ar gyfer gweithio.

### Ystafelloedd sy'n cael eu heithrio o'r asesiad capasiti

3.3 Nid oes angen rhestru'r ardaloedd canlynol ar y ffurflen asesu capasiti:

- toiledau a chawodydd;
- ystafelloedd boeleri ac ystafelloedd peiriannau;
- ceginau ysgol ac ystafelloedd gweini, a'r swyddfeydd a'r storfeydd cysylltiedig;
- pyllau nofio awyr agored;
- ardaloedd cerdded, gan gynnwys coridorau, pen grisiau neu falconi 2.5$m^2$ neu lai o led, grisiau, lifftiau ac ardaloedd cerdded a rennir mewn mannau sy'n cael defnydd cymysg;
- gofod na ellir ei ddefnyddio fel canolfannau dosbarth am resymau iechyd a diogelwch y cytunwyd arnynt gan yr awdurdod lleol (fel isloriau, siediau neu lofftydd a ddefnyddir ar gyfer storio'n unig).

3.4 Dylid rhestru'r ardaloedd canlynol yn Rhan 1 y ffurflen asesu capasiti ond cânt eu heithrio o'r cyfrifiad capasiti, felly nid oes angen eu mesur yn fanwl:

- Uned AAA ar wahân, ynghyd ag unrhyw swyddfeydd, ardaloedd ymarferol a storfeydd cysylltiedig ar gyfer disgyblion nad ydynt, fel arfer, yn cael eu haddysgu mewn dosbarthiadau prif ffrwd am y rhan fwyaf o'r wythnos ysgol. Dylid eithrio'r disgyblion sy'n cael eu haddysgu mewn uned o'r fath hefyd o'r nifer ar y gofrestr wrth gyfrifo capasiti sydd dros ben. [Noder: dylid cynnwys ystafelloedd AAA a ddefnyddir gan ddisgyblion sy'n cael eu dysgu yn bennaf mewn dosbarthiadau prif ffrwd yn Rhannau 2 i 7 y ffurflen, gan ddibynnu ar y cyfarpar sydd ganddynt a sut y'i defnyddir].
- Ystafell rieni neu gymuned.
- Cyfleusterau adnoddau arbennig dynodedig yr awdurdod lleol.
- Cyfleusterau addysg i oedolion dynodedig yr awdurdod lleol.
- Capeli.
- Ystafelloedd nad ydynt ar gael i'r ysgol eu defnyddio.
- Ystafelloedd dros dro sydd wedi eu defnyddio neu y bwriedir eu defnyddio am lai na 3 blynedd. Dylid cyfrif ehangiadau y bwriedir iddynt fod yn barhaol at ddibenion capasiti o'r dechrau, hyd yn oed os caiff y disgyblion eu rhoi mewn llety dros dro i gychwyn.

Llenwch Ran 1 ar gyfer yr ardaloedd hyn, gan gynnwys cyfeirnod yr ystafell a disgrifiad ohoni. Gallwch ddewis cynnwys mesuriadau'r ardal mewn metrau sgwâr.

**Lleoedd Disgyblion**

3.5 Mae'r dull ar gyfer mesur capasiti yn mesur y gofod addysgu sydd ar gael mewn unedau a elwir yn "lleoedd disgyblion". Dosberthir pob ystafell neu ofod y gellir ei ddefnyddio yn ôl math a chaiff nifer tybiannol o leoedd disgyblion ei glustnodi ar gyfer pob gofod. Mae gan bob math o ofod lwfans gofod penodol, fel y disgrifir isod. Y rheswm am hyn yw bod gwahanol weithgareddau yn galw am wahanol fathau o ofod, sydd hefyd yn galw am ardaloedd gwahanol iawn i'w gilydd i ddarparu lle ar gyfer yr un nifer o ddisgyblion. Er enghraifft, mae angen ystafell ddosbarth $60m^2$ ond campfa $270m^2$ ar gyfer dosbarth o 30 o ddisgyblion.

Mewn gofodau mawr iawn neu ardaloedd cynllun agored sy'n gallu dal mwy nag un grŵp dysgu, dylid cyfrif lleoedd disgyblion mewn lluosrifau o 30. Mae'r daenlen wedi'i chynllunio gan ragdybio na cheir mwy na dau grŵp o 30 ym mhob gofod mawr. Os yw'n ymarferol bosibl i ardal fawr, fel ardal ddysgu, ddal mwy na dau grŵp, bydd rhaid ei rannu yn ddau ofod llai at ddibenion mesur capasiti.

3.6 Os defnyddir ardal ar gyfer mwy nag un diben, fel arfer dylid cofnodi hynny yn y rhan o'r ffurflen sy'n cynrychioli'r prif ddefnydd. Fodd bynnag, os na fydd hyn yn rhoi canlyniad priodol, gellir cofnodi'r gofod (yn llawn) mewn dwy ran o'r ffurflen, gan nodi cyfran yr amser a ddefnyddir ar gyfer pob diben yn y golofn ar gyfer cofnodi'r amser sydd ar gael. O ganlyniad, bydd y gofod yn cael ei rannu rhwng y ddau ddefnydd. Bydd angen gofalu bod dwy ffactor yr amser sydd ar gael yn dod i un, a chymryd bod y gofod ar gael ar gyfer addysgu drwy'r dydd - gweler paragraff 3.9.

**Rhannau 2-6**

3.7 Dylid dosbarthu pob ystafell neu ardal i un o'r categorïau canlynol yn unol â'i nodweddion ffisegol, yr offer a geir ynddi a'r defnydd a wneir ohoni. Ar ôl gwneud hynny, bydd lleoedd disgyblion a lleoedd adnoddau yn cael eu cyfrifo yn ôl y fformiwla berthnasol. Caiff lleoedd ychwanegol dros 30 mewn ystafell eu cyfrif fel "lleoedd adnoddau".

- Ardaloedd addysgu cyffredinol - cyfrifir lleoedd disgyblion yn yr ardal a ddefnyddir ar gyfer addysgu neu astudio trwy ddefnyddio'r fformiwla *arwynebedd wedi'i rannu â 2* (rhan 2 y ffurflen).
- Cyfrifir lleoedd adnoddau mewn ystafelloedd dosbarth mawr ac ardaloedd ategol hefyd trwy ddefnyddio'r fformiwla *arwynebedd wedi'i rannu â 2.*
- Ystafelloedd TGCh a labordai iaith - cyfrifir lleoedd disgyblion trwy ddefnyddio'r fformiwla *arwynebedd wedi'i rannu â 2.57* (rhan 3).
- Ardaloedd addysgu ymarferol ysgafn neu ofod mawr a gofod perfformio $75m^2$ neu lai - cyfrifir lleoedd disgyblion trwy ddefnyddio'r fformiwla *arwynebedd wedi'i rannu â 3* (rhan 4).
- Ardaloedd addysgu ymarferol trwm - cyfrifir lleoedd disgyblion trwy ddefnyddio'r fformiwla *arwynebedd wedi'i rannu â 5* (rhan 5).
- Ardaloedd mawr a gofod perfformio mwy na $75m^2$ - cyfrifir lleoedd disgyblion trwy ddefnyddio'r fformiwla *arwynebedd (wedi'i rannu â 9) + 5* (rhan 6).

3.8 **Ardal addysgu gyffredinol –** yn cynnwys y rhan fwyaf o ofod a ddefnyddir i addysgu ac astudio heblaw'r math o ofod addysgu arbenigol a ddisgrifir yn y tablau isod. Dylid rhestru'r ardaloedd addysgu cyffredinol hyn yn Rhan 2 y ffurflen asesu capasiti.

3.9 Yn achos unrhyw ardal addysgu a ddefnyddir hefyd yn rhannol at ddibenion cymdeithasol, i fwyta, i gynnig cyngor gyrfaol neu ddibenion eraill am ran o'r diwrnod ysgol, lluosir nifer y lleoedd disgyblion a gyfrifwyd â'r gyfran o'r diwrnod ysgol y mae'r ardal ar gael ar gyfer addysgu neu astudio, wedi ei dalgrynnu i lawr i'r rhif cyfan agosaf. Mae gofod ar y daflen waith i nodi'r amser y mae'r ardal ar gael, ac mae'r gwerth rhagosodedig "1" yn nodi ei bod ar gael yn llawnamser.

Er enghraifft, os oes neuadd fwyta sy'n mesur $240m^2$ ar gael ar gyfer addysgu drama neu addysg gorfforol am 50% o'r diwrnod, caiff $240m^2$ ei nodi yn Rhan 6 y ffurflen a nodir 0.5 fel yr amser sydd ar gael. Gan ddefnyddio'r lwfans ar gyfer ardal berfformio fawr, mae hyn yn darparu 15 o leoedd disgyblion. Pe byddai'r un neuadd yn cael ei defnyddio ar gyfer addysgu cyffredinol am hanner y diwrnod, a'i bod yn gallu dal dau grŵp addysgu, byddai'n cyfrif fel 30 o leoedd. Mae'r egwyddor hon hefyd yn berthnasol i adeiladau eraill y tu allan i'r ysgol (fel canolfannau hamdden cyfagos neu gyfleusterau cymunedol) a ddefnyddir gan yr ysgol yn rheolaidd am fwy na 50% o'r wythnos ysgol.

3.10 **Ardaloedd ategol –** mae'r lleoedd disgyblion ychwanegol dros 30 mewn ystafelloedd mawr yn cyfrif fel lleoedd adnoddau. Mae lleoedd mewn ardaloedd

ategol nad ydynt yn addas i'w defnyddio fel ardaloedd addysgu oherwydd eu maint cyfyngedig (hy llai na 10m$^2$), neu nodweddion eraill, hefyd yn cyfrif tuag at gyfanswm y lleoedd adnoddau. Gallai ardaloedd o'r fath gynnwys storfeydd, swyddfa'r pennaeth neu'r dirprwy, swyddfeydd bugeiliol, swyddfeydd gweinyddu, derbynfeydd a mannau aros, ystafelloedd ar gyfer archwiliadau meddygol, cynteddau/ystafelloedd loceri ac ardaloedd paratoi ymarferol. Dylid rhestru lleoedd mewn ardaloedd ategol yn Rhan 7 y ffurflen. Nid yw lleoedd adnoddau yn cyfrif yn uniongyrchol fel rhan o gapasiti'r ysgol ond cânt eu crynhoi ar ddiwedd y cyfrifiad. Os oes mwy neu lai o ofod ategol na'r ystod a ddisgwylir fel rheol ar gyfer ysgol uwchradd, caiff hyn ei nodi er mwyn i'r awdurdod lleol ymchwilio ymhellach ar gyfer cymryd y camau priodol.

3.11 Dylid cynnwys ardaloedd arbenigol yn y rhan berthnasol o'r ffurflen fel yr amlinellir yn y tabl isod.

| **Math o ofod** | **Nodweddion ffisegol** |
|---|---|
| ***TGCh a Busnes [Rhan 3]*** | |
| Ystafell TGCh a 'chlwstwr' TGCh | Gyda gosodiadau i ddarparu rhwydwaith a chyflenwad pŵer. Yn cael ei defnyddio ar gyfer TGCh yn bennaf: hy o leiaf 60% o leoedd disgyblion (yn seiliedig ar y fformiwla TGCh a busnes) yn cael eu defnyddio ar gyfer gweithfannau TGCh. |
| Labordy Iaith | Gosodiadau i ddarparu rhwydwaith a chyflenwad pŵer; cyfarpar sain a/neu TGCh |
| ***Gofod Ymarferol Ysgafn a neuaddau, stiwdios neu ardaloedd perfformio 75m$^2$ neu lai [Rhan 4]*** | |
| Llyfrgell | Yn cynnwys silffoedd ar gyfer storio ac arddangos llyfrau: offer TGCh a/neu glyweledol hefyd o bosibl. |
| Labordy gwyddoniaeth ac unrhyw ardal baratoi a ddefnyddir gan ddisgyblion | Gosodiadau i ddarparu dŵr, nwy a chyflenwad pŵer, ychydig o gelfi sefydlog (meinciau neu 'byst'); cwpwrdd gwyntyllu o bosib. |
| Ystafell gelf ac ystafell odyn | Llawr y gellir ei olchi (teils neu finyl), meinciau sefydlog a sinciau; gallai'r celfi a'r offer eraill hefyd gynnwys cistiau cynllunio, bwrdd argraffu sgrin, byrddau llunio, îsls, blwch golau, offer TGCh, olwyn crochenydd, melin gleio a/neu odyn a rheseli sychu (yn debygol o fod mewn ystafell odyn ar wahân). |
| Ystafell decstilau (gwlyb neu sych) | Gosodiadau i ddarparu cyflenwad pŵer, llawr y gellir ei olchi (teils neu finyl), sinciau a meinciau sefydlog golchdy; gallai'r celfi a'r offer hefyd gynnwys peiriannau gwnïo a gwau, gwehyddu, offer TGCh, bwrdd argraffu sgrin, peiriant golchi dillad (gallai fod mewn golchdy ar wahân). |

| | |
|---|---|
| ***Gofod Ymarferol Ysgafn a neuaddau, stiwdios neu ardaloedd perfformio 75m$^2$ neu lai [Rhan 4]*** | |
| Ystafell graffeg | Gosodiadau i ddarparu rhwydwaith a chyflenwad pŵer; gallai'r celfi a'r offer gynnwys byrddau llunio a/neu offer TGCh; blychau chwistrellu, cistiau cynlluniau a/neu flychau golau. |
| Niwmateg, electroneg a thechnoleg rheoli (PECT) (gelwir hefyd yn electroneg) | Gosodiadau i ddarparu cyflenwad pŵer (gan gynnwys foltedd isel) ac aer cywasgedig; ychydig o feinciau sefydlog ac offer ar feinciau; hefyd o bosibl offer TGCh wedi'i rwydweithio; byrddau neu feinciau sefydlog neu rydd ar gyfer systemau a chydrannau mecanyddol, trydanol, electronig a niwmatig; aml-feinciau, byrddau llunio, blwch golau, sinc a/neu danciau ysgythru; peiriannau cyfrifiadurol bach a reolir gan rifau (CNC). |
| Ystafell dywyll | Meinciau sefydlog gyda sinciau, llawr y gellir ei olchi; offer datblygu ffotograffau (ee offer gwneud lluniau'n fwy, cwpwrdd sychu). |
| Stiwdios recordio/ystafell reoli | Ystafell â deunydd arwahanu acwstig, meinciau sefydlog gydag offer sain/gweledol (ee cymysgwyr, deciau tapiau, offer TGCh) a chysylltiadau cebl i ofod cerddoriaeth/drama cyfagos; mae'n bosibl y bydd yno hefyd ffenestr arsylwi neu offerynnau cerddorol, uchelseinyddion, chwyddseinyddion a/neu uned effeithiau. |
| Neuaddau, stiwdios, gofod ar gyfer perfformio a gofod cyffredinol ar gyfer Addysg Gorfforol sy'n 75m$^2$ neu'n llai | Gweler y disgrifiadau o dan Ran 6. |
| ***Gofod Ymarferol Trwm [Rhan 5]*** | |
| Gofod Addysg Gorfforol ag offer arbennig llai na 120m$^2$ | Cwrt sboncen neu gampfa â phwysau arbenigol neu offer hyfforddi ffitrwydd. |
| Ystafell fwyd (gelwir hefyd yn dechnoleg bwyd) | O leiaf dau ddarn o offer a gaiff eu gwasanaethu (ee poptai), a rhywfaint o feinciau sefydlog, sinciau, llawr y gellir ei olchi ac eitemau eraill o offer a allai gynnwys poptai microdon, rhewgelloedd, oergelloedd, peiriannau golchi llestri a/neu offer TGCh. |

| | |
|---|---|
| ***Gofod Ymarferol Trwm [Rhan 5]*** | |
| Gweithdy peirianneg neu aml-ddeunydd (gelwir hefyd yn CDT, gwaith coed, gwaith metel neu ddeunyddiau ymwrthol) | O leiaf dau beiriant pedestal wedi'u gosod ar y llawr (ee dril, turn, peiriant sandio, peiriant malu, cylchlif), a pheiriannau ar feinciau, rhywfaint o feinciau sefydlog, aml feinciau; gallai hefyd gynnwys byrddau gwasanaeth, offer plastig (ee peiriant ffurfio gwactod, torrwr gwifrau poeth) a/neu durnau neu beiriannau malu cyfrifiadurol a reolir gan rifau (CNC). |
| Pyllau nofio dan do bach | Cyfanswm o 120m$^2$ neu lai. |
| Cilfach trin gwres | Cilfach trin gwres (gallai fod yn yr un ystafell neu ar wahân) yn cynnwys aelwyd bresyddu a/neu offer trin gwres arall (ee ffwrn sglodion, mainc weldio). |
| ***Gofod mawr a gofod perfformio sy'n fwy na 75m$^2$ [Rhan 6]<br>Noder: Dylid rhestru ardaloedd 75m$^2$ neu lai yn Rhan 4.*** | |
| Pyllau nofio dan do mawr | Cyfanswm o dros 120m$^2$. Wedi eu hadeiladu at y diben, hyd yn oed os na chânt eu defnyddio. |
| Neuadd chwaraeon | Neuadd fawr gyda nenfwd uchel; llawr priodol gyda llinellau cyrtiau; o bosibl yn cynnwys offer ar gyfer chwaraeon dan do (ee pêl fasged neu bêl foli, rhwydi criced, gymnasteg). |
| Campfa | Campfa fawr gyda nenfwd uchel; llawr priodol (llawr meddal o bosibl) gyda llinellau cyrtiau; ac yn cynnwys o bosibl bariau wal ac offer sefydlog arall ar gyfer chwaraeon dan do a gymnasteg. |
| Ystafell chwaraeon targed | Gofod hir (mwy na 18m fel arfer), cul, gyda nenfwd uchel o bosibl; offer ar gyfer saethyddiaeth, saethu pistol neu reiffl, golff, bowls neu ymarfer criced. |
| Neuadd a llwyfan | Gofod mawr fel arfer gyda llawr caled priodol; gallai gynnwys llwyfan (y dylid ei gynnwys wrth gyfrifo cyfanswm yr arwynebedd); efallai ei bod yn cael ei defnyddio hefyd ar gyfer drama, addysg gorfforol a/neu fwyta. |
| Ystafell fwyta (os caiff ei defnyddio ar gyfer addysgu neu astudio) | [Gweler y nodiadau ar gynnwys gofod a ddefnyddir ar gyfer addysgu neu astudio am ran o'r diwrnod ysgol ym mharagraff 3.9.] Gofod bwyta arbennig gyda llawr y gellir ei olchi; yn debygol o fod yn agos i gegin neu ardal weini; gallai gynnwys celfi bwyta arbenigol, ond ychydig neu ddim celfi neu offer arall. |

| ***Gofod mawr a gofod perfformio sy'n fwy na 75m$^2$ [Rhan 6]***<br>***Noder: Dylid rhestru ardaloedd 75m$^2$ neu lai yn Rhan 4.*** | |
|---|---|
| Atria a Rhodfeydd | Os ydynt yn addas i'w defnyddio fel ardaloedd addysgu (gweler paragraff 3.9). |
| Stiwdio ddrama | Wedi'i chynllunio ac yn cynnwys offer ar gyfer y celfyddydau mynegiannol, hy gofod mawr, ychydig o gelfi ac offer; gallai gynnwys llwyfan tywyll neu lwyfan â system i reoli'r golau. |
| Stiwdio ddawns | Gofod mawr, ychydig neu ddim celfi ac offer, llawr meddal. |
| Ystafell gerddoriaeth, ystafell berfformio ac ystafell grŵp/ymarfer | Gosodiadau i ddarparu rhwydwaith a chyflenwad pŵer; yn debygol o gynnwys offer TGCh ac allweddellau electronig; gallai gynnwys deunydd acwstig. Gallai ystafelloedd ar gyfer grwpiau ac ar gyfer ymarfer gynnwys waliau ar ongl ac ychydig neu ddim celfi ac offer. |
| Ystafell gyfryngau | Gofod ar gyfer drama; offer tebyg i'r stiwdio recordio. |

**Capasiti**

3.12 Wrth gyfrifo'r capasiti, dylid cynnwys pob adeilad parhaol, hy lle y bwriedir iddo fod yn barhaol o'r cychwyn neu sydd wedi bod ar y safle ers 3 blynedd neu fwy. Mae hynny'n cynnwys unrhyw ystafelloedd nad ydynt yn cael eu defnyddio mwyach a'r rheini mewn unedau dros dro sydd wedi bod (neu sy'n debygol o fod) ar y safle am 3 blynedd neu fwy. Gellir diystyru lle sy'n lle dros dro, a fydd yn cael ei symud o'r safle cyn pen tair blynedd wedi iddo gael ei osod. Fodd bynnag, dylid cyfrif ehangiadau y bwriedir iddynt fod yn barhaol o'r dechrau, hyd yn oed os caiff y disgyblion eu rhoi mewn llety dros dro i gychwyn.

3.13 Ar ôl i'r data gael ei nodi ar ran briodol y daenlen, defnyddir y fformiwla berthnasol yn awtomatig i gyfrifo nifer y lleoedd disgyblion ym mhob ardal. Bydd y daenlen yn cyfrifo cyfanswm nifer y lleoedd disgyblion yn y pum categori canlynol: ardaloedd addysgu cyffredinol, ardaloedd TGCh a busnes, ardaloedd ymarferol ysgafn/ardaloedd perfformio llai, ardaloedd ymarferol trwm ac ardaloedd mawr ac ardaloedd perfformio.

3.14 Caiff cyfanswm y lleoedd disgyblion, wedi ei addasu os yw'n briodol, ei luosi â'r ffactor defnyddio priodol i adlewyrchu'r defnydd. Bydd y ffactor yn dibynnu ar ystod oedran yr ysgol a chaiff ei nodi ar y daflen yn awtomatig; 0.71 ydyw i ysgolion â blynyddoedd 7 i 13 a 0.75 i ysgolion â blynyddoedd 7 i 11. Y ffigur terfynol yw capasiti'r ysgol.

**Nifer derbyn**

3.15 Cyfrifir y nifer derbyn trwy rannu'r capasiti â nifer y grwpiau blwyddyn sydd i'w derbyn i'r ysgol. Mewn ysgolion uwchradd gyda disgyblion ym mlynyddoedd 12 a 13, addasir nifer y grwpiau blwyddyn i adlewyrchu cyfradd myfyrwyr ôl-16 yr ysgol. Gellir

defnyddio'r gyfradd hon, wedi'i lluosi â nifer derbyn yr ysgol, i gyfrifo nifer derbyn ar wahân ar gyfer blwyddyn 12. Os yw'r ysgol yn derbyn disgyblion i flwyddyn 12 o leoedd eraill, **dylid** cyfrifo nifer derbyn ar gyfer blwyddyn 12, yn ogystal â'r nifer derbyn ar gyfer blwyddyn 7.[Noder: dylai niferoedd y disgyblion ym mlynyddoedd 12 ac 13 a gaiff eu nodi yn Rhan 9 y ffurflen gynnwys y disgyblion hynny sy'n ail-gymryd blwyddyn.]

3.16 Ni fyddem yn disgwyl y byddai angen ailgyfrif i adlewyrchu amrywiadau naturiol yn niferoedd disgyblion ôl-16; dim ond pan fo cynnydd neu ostyngiad mawr, hirdymor, ym maint blynyddoedd 12 a 13 y bydd angen ailgyfrif.

## Talgrynnu

3.17 Mae'r ffurflen gapasiti yn caniatáu i'r capasiti, a'r nifer derbyn, gael eu talgrynnu **i lawr** o hyd at 10% i alluogi awdurdod derbyn i bennu nifer derbyn rhesymol sy'n addas ar gyfer trefniadaeth yr ysgol. Dim ond pan fo amgylchiadau arbennig yr ysgol yn golygu bod y capasiti yn gamarweiniol y dylid gwneud hyn. Gallai amgylchiadau o'r fath gynnwys:

- Ysgolion aml-safle, er enghraifft, lle mae dosbarthiad cyffredinol y gofodau addysgu yn golygu bod nifer is yn fwy priodol.
- Lle mae plant ag anghenion arbennig yn cael eu derbyn, a'u bod angen cyfarpar symudedd neu gyfarpar arall sy'n mynd â thipyn o le, a bod y disgyblion hyn yn cael eu haddysgu ochr yn ochr â rhai heb anghenion o'r fath.
- Lle mae trefn yr ystafelloedd yn afreolaidd neu'n anaddas i anghenion y cwricwlwm, er enghraifft, lle mae cyfran sylweddol o'r ardaloedd addysgu yn gallu dal llai na 30 o ddisgyblion, lle nad yw hyn yn briodol i reoli'r ysgol o ddydd i ddydd.
- Rhesymau iechyd a diogelwch neu ymarferol, er enghraifft, lle mae yna gyfleusterau bwyta bach neu goridorau cul. Fodd bynnag, mewn achosion o'r fath, efallai y byddai'n fwy priodol ail-drefnu'r gofod sydd ar gael er mwyn ei ddefnyddio'n fwy effeithiol.

Ni ddylid defnyddio'r dull talgrynnu oni bai bod yr awdurdod lleol neu gorff llywodraethu'r ysgol, yn achos ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir ac ysgolion sefydledig, yn gallu cyfiawnhau hynny. Dylid cynnwys nodyn o'r rheswm dros ddefnyddio'r dull talgrynnu ar y ffurflen, er eglurder.

3.18 Ar ôl i nifer derbyn gael ei bennu, dylai'r awdurdod derbyn barchu'r penderfyniad oni bai bod yna amgylchiadau eithriadol (gweler paragraff 1.12).

# Adran 3(b) – Capasiti ysgolion uwchradd: dynodi ystafelloedd

## Rhestr Rwydd

| Ystafell | Rhan berthnasol y ffurflen gapasiti |
|---|---|
| Ystafell Addysg Oedolion neu gyfleuster arbennig arall | 1 |
| Y Swyddfa Weinyddu | 7 |
| Ystafell gelf neu grochenwaith | 4 |
| Atria a Rhodfeydd (os ydynt yn addas i'w defnyddio fel ardaloedd addysgu) | 6 |
| Atig/llofft | Heb ei gynnwys |
| Ystafell sain/gweledol | 7 |
| Ystafell pwyso (ardal storio deunyddiau pwyso i'w defnyddio ar gyfer gwersi Cemeg) | 7 neu 4 os yw'n cael ei defnyddio gan ddisgyblion |
| Balconi/pen grisiau ≤2.5m $^{2}$ | Heb ei gynnwys |
| Islawr | Heb ei gynnwys |
| Ystafell foeler/Ystafell beiriannau | Heb ei chynnwys |
| Ffreutur – gweler y nodyn ar gyfer ystafell fwyta | 6 |
| Ystafell yrfaoedd (gweler paragraff 3.9) | 7 |
| Ystafell y gofalwr | 7 |
| Ystafell newid | 7 |
| Capel | 1 |
| Ardal gerdded | Heb ei chynnwys |
| Ystafell ddosbarth (Ardal addysgu gyffredinol) | 2 |
| Ystafell ddosbarth $\leq 25m^2$ ond nid $<10m^2$ | 2 |
| Ystafell gotiau (benodedig, gyda meinciau a bachau sefydlog) | 7 |

| **Ystafell** | **Rhan berthnasol y ffurflen gapasiti** |
|---|---|
| Bar coffi/diodydd nas defnyddir ar gyfer astudio | 7 |
| Ystafell gyffredin i ddisgyblion ôl-16 (na ddefnyddir ar gyfer astudio) | 7 |
| Ystafell gymuned/rhieni | 1 |
| Coridor | Heb ei gynnwys |
| Stiwdio ddawns $\leq 75m^2$ | 4 |
| Stiwdio ddawns $>75m^2$ | 6 |
| Ystafell dywyll – os caiff ei defnyddio gan ddisgyblion | 4 |
| Ystafell fwyta na ddefnyddir ar gyfer astudio | 7 |
| Ystafell fwyta a ddefnyddir ar gyfer addysgu - yn dibynnu ar ei maint a sut y'i defnyddir | 2, 4 neu 6 |
| Stiwdio ddrama $\leq 75m^2$ | 4 |
| Stiwdio ddrama $>75m^2$ | 6 |
| Gweithdy peirianneg neu aml-ddeunydd (ee CDT, gwaith coed, gwaith metel neu ddeunyddiau ymwrthol) | 5 |
| Ystafell drydan/ystafell switsys | Heb ei chynnwys |
| Ystafell technoleg bwyd | 5 |
| Ystafell graffeg | 4 |
| Campfa | 6 |
| Gwallt a harddwch | 4 |
| Neuadd a llwyfan $\leq 75m^2$ | 4 |
| Neuadd a llwyfan $> 75m^2$ | 6 |
| Swyddfa'r Pennaeth/y Dirprwy | 7 |
| Cilfach trin gwres | 5 |
| Ystafell TGCh a 'chlwstwr' TGCh | 3 |

| **Ystafell** | **Rhan berthnasol y ffurflen gapasiti** |
|---|---|
| Ystafell gynhwysiant – i'w defnyddio gan ddisgyblion sydd wedi'u tynnu o'r dosbarth dros dro | 2, 4 neu 7, gan ddibynnu ar ei maint a'r offer |
| Ystafell gweinydd TG | 1 |
| Ystafell yr odyn | 4 |
| Cegin a'r storfeydd a'r swyddfeydd cysylltiedig | Heb eu cynnwys |
| Labordy Iaith | 3 |
| Theatr ddarlithio $\leq$ 75m$^2$ | 4 |
| Theatr ddarlithio >75m$^2$ | 6 |
| Llyfrgell | 4 |
| Lifft | Heb ei gynnwys |
| Cyntedd/ystafell loceri (os nad yw'n ardal gerdded) | 7 |
| Gofod atig (a ddefnyddir ar gyfer storio) | Heb ei gynnwys |
| Ystafell gyfryngau - yn dibynnu ar ei maint a sut y'i defnyddir | 4 neu 6 |
| Ystafell feddygol | 7 |
| Ystafelloedd cyfarfod (os nad ydynt ar gael i'w defnyddio fel ardal addysgu) | 7 |
| Ystafell gerddoriaeth/ystafell berfformio ac ystafell ymarfer/grŵp <75m$^2$ | 4 |
| Ystafell gerddoriaeth/ystafell berfformio ac ystafell ymarfer/grŵp >75m$^2$ | 6 |
| Ystafell ddosbarth cerddoriaeth | 2 |
| Swyddfa fugeiliol | 7 |
| Niwmateg, electroneg a thechnoleg rheoli (PECT) (gelwir hefyd yn electroneg) | 4 |
| Ardaloedd paratoi ymarferol a ddefnyddir gan ddisgyblion | 4 |
| Ardaloedd paratoi ymarferol (os na chânt eu defnyddio gan ddisgyblion) | 7 |

| **Ystafell** | **Rhan berthnasol y ffurflen gapasiti** |
|---|---|
| Ystafell weddïo (os nad yw ar gael i'w defnyddio fel gofod addysgu) | 7 |
| Ystafell chwaraeon targed | 5 |
| Derbynfa/ardal aros | 7 |
| Stiwdio recordio/ystafell reoli | 4 |
| Reprograffeg | 7 |
| Labordy gwyddoniaeth ac unrhyw ardal baratoi a ddefnyddir gan ddisgyblion | 4 |
| Uned AAA neu ganolfan adnoddau i ddisgyblion nad ydynt yn cael eu haddysgu mewn dosbarthiadau prif ffrwd | 1 |
| Ystafell ar wahân ar gyfer disgyblion ag AAA, i'w defnyddio gan ddisgyblion sy'n cael eu haddysgu yn y prif ffrwd | 2 neu 7, gan ddibynnu ar ei maint a'i nodweddion |
| Ardal weini | Heb ei chynnwys |
| Sied | Heb ei gynnwys |
| Ystafell gawod | Heb ei chynnwys |
| Neuadd chwaraeon $\leq 75m^2$ | 4 |
| Neuadd chwaraeon $> 75m^2$ | 6 |
| Cwrt sboncen | 5 |
| Ystafell Staff | 7 |
| Grisiau | Heb eu cynnwys |
| Storfa/ystafell storio | 7 |
| Ardal astudio ar gyfer disgyblion ôl-16 (gan gynnwys ystafelloedd cyffredin a ddefnyddir i astudio) | 4 |
| Pwll nofio - dan do $\leq 120m^2$ | 5 |
| Pwll nofio - dan do $>120m^2$ | 6 |
| Pwll nofio - awyr agored | Heb ei gynnwys |

| **Ystafell** | **Rhan berthnasol y ffurflen gapasiti** |
|---|---|
| Ystafell technegwyr (ar gyfer DT/Gwyddoniaeth) os na chaiff ei defnyddio gan ddisgyblion | 7 |
| Adeilad dros dro (a ddefnyddiwyd neu y bwriadwyd ei ddefnyddio am lai na 3 blynedd) | 1 |
| Ystafell decstilau (gwlyb neu sych) | 4 |
| Toiledau | Heb eu cynnwys |
| Ystafell diwtorial | 2 |
| Ystafelloedd heb eu dynodi <$10m^2$ | 7 |
| Ystafell gyfleustodau | 7 |
| Fideo-gynadledda | 7 |
| Ystafell bwysau/ffitrwydd | 5 |

# Adran 3(c) – cyfrifo capasiti ysgolion uwchradd

**Cyfrifo capasiti ysgolion uwchradd**

**Noder: Mae'r blychau lle dylid mewnbynnu data wedi eu lliwio'n felyn**

| Enw'r Ysgol | Rhif ALI | Rhif Ysgol | Ystod Oed |
|---|---|---|---|
| | | | - |

**Rhestr Ystafelloedd**

**Rhan 1: Ardaloedd Eithriedig**

*Noder: Dylid rhestru yma ardaloedd o'r ysgol nas ystyrir at ddibenion capasiti. Mae mesuriadau yn opsiynol.*

| Cyf Ystafell | Disgrifiad o'r ystafell | Arwynebedd ($m^2$) |
|---|---|---|
| | | |

**Cyfanswm Yr Ardaloedd Eithriedig**

**Rhan 2: Ardaloedd Addysgu Cyffredinol: Arwynebedd ÷ 2**

| Cyf Ystafell | Disgrifiad o'r ystafell | Arwynebedd ($m^2$) | Amser sydd ar gael | Lleoedd disgyblion | Lleoedd adnoddau |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | 1.00 | | |
| | | | 1.00 | | |
| | | | 1.00 | | |
| | | | 1.00 | | |
| | | | 1.00 | | |
| | | | 1.00 | | |
| | | | 1.00 | | |
| | | | 1.00 | | |
| | | | 1.00 | | |
| | | | 1.00 | | |
| | | | 1.00 | | |
| | | | 1.00 | | |
| | | | 1.00 | | |
| | | | 1.00 | | |
| | | | 1.00 | | |
| | | | 1.00 | | |
| | | | 1.00 | | |
| | | | 1.00 | | |
| | | | 1.00 | | |

**Cyfanswm Ardaloedd Addysgu Cyffredinol**

| | | | | *(i)* | *(vi)* |
|---|---|---|---|---|---|

## Rhan 3: TGCh a Busnes: Arwynebedd ÷ 2.57

| Cyf Ystafell | Disgrifiad o'r ystafell | Arwynebedd (m²) | Amser sydd ar gael | Lleoedd disgyblion | Lleoedd adnoddau |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | 1.00 | | |
| | | | 1.00 | | |
| | | | 1.00 | | |
| | | | 1.00 | | |
| | | | 1.00 | | |
| | | | 1.00 | | |
| | | | 1.00 | | |
| | | | 1.00 | | |
| | | | 1.00 | | |
| | | | 1.00 | | |
| | | | 1.00 | | |
| | | | 1.00 | | |
| | | | 1.00 | | |
| | | | 1.00 | | |
| | | | 1.00 | | |
| | | | 1.00 | | |
| | | | 1.00 | | |
| | | | 1.00 | | |
| | | | 1.00 | | |
| | | | 1.00 | | |
| | | | 1.00 | | |
| | | | 1.00 | | |
| Cyfanswm Ardaloedd TGCh a Busnes | | | | *(ii)* | *(vii)* |

## Rhan 4: Ardaloedd Ymarferol Ysgafn Neu Ofod Perfformio 75m$^2$ Neu Lai: Arwynebedd ÷ 3

| Cyf Ystafell | Disgrifiad o'r ystafell | Arwynebedd (m²) | Amser sydd ar gael | Lleoedd disgyblion | Lleoedd adnoddau |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | 1.00 | | |
| | | | 1.00 | | |
| | | | 1.00 | | |
| | | | 1.00 | | |
| | | | 1.00 | | |
| | | | 1.00 | | |
| | | | 1.00 | | |
| | | | 1.00 | | |
| | | | 1.00 | | |
| | | | 1.00 | | |
| | | | 1.00 | | |
| | | | 1.00 | | |
| | | | 1.00 | | |
| | | | 1.00 | | |
| | | | 1.00 | | |
| | | | 1.00 | | |
| | | | 1.00 | | |
| | | | 1.00 | | |
| | | | 1.00 | | |
| | | | 1.00 | | |
| Cyfanswm Ardaloedd Ymarferol Ysgafn Neu Ofod Perfformio 75m² neu lai | | | | *(iii)* | *(viii)* |

### Rhan 5: Ardaloedd Ymarferol Trwm: Arwynebedd ÷ 5

| Cyf Ystafell | Disgrifiad o'r ystafell | Arwynebedd ($m^2$) | Amser sydd ar gael | Lleoedd disgyblion | Lleoedd adnoddau |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | 1.00 | | |
| | | | 1.00 | | |
| | | | 1.00 | | |
| | | | 1.00 | | |
| | | | 1.00 | | |
| | | | 1.00 | | |
| | | | 1.00 | | |
| | | | 1.00 | | |
| | | | 1.00 | | |
| | | | 1.00 | | |
| | | | 1.00 | | |
| | | | 1.00 | | |
| | | | 1.00 | | |
| | | | 1.00 | | |
| | | | 1.00 | | |
| | | | 1.00 | | |
| | | | 1.00 | | |
| | | | 1.00 | | |
| | | | 1.00 | | |
| | | | 1.00 | | |
| | | | 1.00 | | |
| | | | 1.00 | | |

**Cyfanswm Ardaloedd Ymarferol Trwm**

*(iv)* *(ix)*

### Rhan 6: Ardaloedd Mawr a Gofod Perfformio Mwy Na 75m$^2$: (Arwynebedd ÷ 9) + 5

| Cyf Ystafell | Disgrifiad o'r ystafell | Arwynebedd ($m^2$) | Amser sydd ar gael | Lleoedd disgyblion | Lleoedd adnoddau |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | 1.00 | | |
| | | | 1.00 | | |
| | | | 1.00 | | |
| | | | 1.00 | | |
| | | | 1.00 | | |
| | | | 1.00 | | |
| | | | 1.00 | | |
| | | | 1.00 | | |
| | | | 1.00 | | |
| | | | 1.00 | | |
| | | | 1.00 | | |
| | | | 1.00 | | |
| | | | 1.00 | | |
| | | | 1.00 | | |
| | | | 1.00 | | |
| | | | 1.00 | | |
| | | | 1.00 | | |
| | | | 1.00 | | |
| | | | 1.00 | | |
| | | | 1.00 | | |
| | | | 1.00 | | |
| | | | 1.00 | | |

**Cyfanswm Ardaloedd Mawr a Gofod Perfformio Mwy Na 75m$^2$**

*(v)* *(x)*

## Rhan 7: Ardaloedd Ategol: Arwynebedd ÷ 2

| Cyf Ystafell | Disgrifiad o'r ystafell | Arwynebedd ($m^2$) | Lleoedd adnoddau |
|---|---|---|---|
| | | | |

**Cyfanswm Ardaloedd Ategol**

*(xi)*

## Rhan 8: Crynodeb o Ystafelloedd – Ardaloedd Addysgu

| | | Arwynebedd | | Lleoedd Disgyblion | |
|---|---|---|---|---|---|
| Ardal addysgu gyffredinol | [cyfanswm lleoedd disgyblion yn rhan 2] | | | | *(i)* |
| Ardal TGCh a busnes | [cyfanswm lleoedd disgyblion yn rhan 3] | | | | *(ii)* |
| Ardal ymarferol ysgafn | [cyfanswm lleoedd disgyblion yn rhan 4] | | | | *(iii)* |
| Ardal ymarferol trwm | [cyfanswm lleoedd disgyblion yn rhan 5] | | | | *(iv)* |
| Mawr a pherfformio | [cyfanswm lleoedd disgyblion yn rhan 6] | | | | *(v)* |
| ***Capasiti ar sail yr ardaloedd addysgu*** | | | | | ***a*** |

| Ystod Oed | Ffactor Defnyddio |
|---|---|
| Blynyddoedd 7-11 | 0.75 |
| Blynyddoedd 7-13 | 0.71 |

Data Ar Goll — ***b Ffactor defnyddio***

*Nodwch yr Ystod Oed yng nghell K6*

Lluoswch nifer y lleoedd disgyblion â'r ffactor defnyddio priodol
*(a * b neu c)* — ***c Capasiti'r ysgol***

Opsiwn i dalgrynnu'r capasiti a'r nifer derbyn i lawr o hyd at 10% – gweler y nodiadau canllaw. — ***d Capasiti diwygiedig***

## Rhan 9: Blynyddoedd 12 a 13

| Llenwch y blwch hwn os oes gan yr ysgol ddisgyblion ym mlwyddyn 12 a 13 | Disgyblion ym mlwyddyn 11 | Disgyblion ym mlynyddoedd 12 ac 13 | Ôl-16 | |
|---|---|---|---|---|
| eleni | | | | |
| y llynedd | | | | |
| blwyddyn cyn diwethaf | | | | |
| cyfartaledd | | | | ***e*** |

Nifer derbyn yr ysgol [c neu d÷(5+e)] — ***f*** — ***Nifer derbyn***

Nifer derbyn ar gyfer blwyddyn 12 [f×e÷2] — ***Nifer derbyn ar gyfer blwyddyn 12 (os oes angen)***

Datganiad o Gywirdeb: Awdurdod lleol

Pennaeth

Cadeirydd Bwrdd Llywodraethu Ysgol Wirfoddol a Gynhelir neu Ysgol Sefydledig:

Dyddiad cyfrifo:

**Er Gwybodaeth yn Unig – Crynodeb o Leoedd Adnoddau**

| **Lleoedd Adnoddau** | |
|---|---|
| Cyfanswm y lleoedd adnoddau yn Rhan 7 (xi) | |
| Cyfanswm y lleoedd adnoddau yn Rhannau 2 i 6 [(vi)+(vii)+(viii)+(ix)+(x)] | |
| **CYFANSWM** | |

# Adran 4 – Pennu nifer derbyn is nag y mae'r dull asesu capasiti yn ei nodi

4.1 Nod y fformiwla Mesur Capasiti Ysgolion yng Nghymru (MCSW) yw cynnig asesiad realistig a chyson o gapasiti ysgol, a'i ddefnyddio i bennu ei nifer derbyn. Fodd bynnag, ar adegau, efallai y bydd yr awdurdod lleol neu gorff llywodraethu ysgol wirfoddol a gynorthwyir neu ysgol sefydledig yn teimlo y byddai'n fwy priodol i bennu nifer derbyn is.

4.2 Y dewis cyntaf yw defnyddio'r dull talgrynnu i lawr 10% sy'n cael ei ganiatáu gan y fformiwla o dan rai amgylchiadau. Mae'r fformiwla sylfaenol yn caniatáu talgrynnu'r capasiti, ac felly'r nifer derbyn, i lawr 10% ond heb fod yn fwy na 30 o leoedd i roi hyblygrwydd i awdurdodau derbyn lle mae amgylchiadau penodol yr ysgol yn golygu bod y capasiti yn gamarweiniol. Gallai amgylchiadau o'r fath gynnwys y rheini a amlinellir ym mharagraff 2.19. Ni ddylid defnyddio'r dull talgrynnu i lawr yn rheolaidd ac, fel arfer, ni fydd ei angen i sicrhau cydymffurfiaeth â therfynau maint dosbarthiadau gan fod y fformiwla eisoes yn cynnwys terfyn o 30 o leoedd disgyblion ym mhob ystafell ddosbarth.

4.3 Mae'r fformiwla eilaidd hefyd yn caniatáu talgrynnu'r capasiti a'r nifer derbyn i lawr hyd at 10% fel y gall awdurdod derbyn bennu nifer derbyn rhesymol sy'n addas i drefniadaeth yr ysgol. **Dim ond os** yw amgylchiadau penodol yr ysgol yn golygu bod y capasiti yn gamarweiniol y dylid defnyddio'r dull talgrynnu hwn. Gallai amgylchiadau o'r fath gynnwys y rheini a amlinellir ym mharagraff 3.16.

**Penderfynu ar nifer is**

4.4 Os bydd awdurdod derbyn am bennu nifer derbyn is nag y mae'r hyblygrwydd yn y fformiwla yn caniatáu ar ei gyfer er mwyn gwella canlyniadau addysgol, rhaid iddo'n gyntaf ymgynghori ar y nifer is trwy'r broses ymgynghori a phenderfynu ar drefniadau derbyn yn gyntaf (gweler paragraffau 1.23 i 1.24). Ar ôl penderfynu ar y trefniadau, mae'n ofynnol yn unol â Rheoliadau Addysg (Penderfynu Trefniadau Derbyn) (Cymru) 2006 i'r awdurdod derbyn gyhoeddi hysbysiad fel y bydd rhieni plant rhwng 2 ac 11 oed sy'n byw yn yr ardal ymgynghori berthnasol ar gyfer yr ysgol yn cael cyfle i gyflwyno gwrthwynebiad i Weinidogion Cymru ynglŷn â'r nifer is hwn. **Nid** yw'r gofyniad i gyhoeddi hysbysiad yn berthnasol pan fo'n briodol defnyddio'r dull talgrynnu 10%.

4.5 Gallai'r amgylchiadau lle gallai penderfynu ar nifer is fod yn briodol gynnwys pan fo:

- Angen brys i addasu ystafell(oedd) dosbarth i'w defnyddio at ddibenion eraill.
- Angen brys i ailfodelu'r ysgol i ddarparu llai o ystafelloedd dosbarth sy'n fwy addas i gyflwyno'r cwricwlwm cenedlaethol yn effeithiol.

- Angen cael gwared ar ystafelloedd anfoddhaol na fyddai'n gost-effeithiol i'w hatgyweirio neu eu disodli, a bod digon o leoedd ysgol addas eraill yn yr ardal. (Fel arfer, bydd hyn yn berthnasol i ystafelloedd dosbarth dros dro ond gallai fod yn berthnasol yn achos blociau annibynnol anfoddhaol y byddai'n ymarferol cael gwared arnynt).

### Cyhoeddi'r hysbysiad

4.6 Rhaid cyhoeddi'r hysbysiad, o fewn 14 diwrnod i'r dyddiad penderfynu ar y trefniadau derbyn, mewn papur newydd a ddosberthir yn yr ardal a wasanaethir gan yr ysgol. Caiff cynnwys yr hysbysiad ei nodi yn y rheoliadau fel a ganlyn:

a. enw'r awdurdod derbyn a'r ysgol(ion) y mae nifer derbyn is na'r nifer derbyn cyfredol wedi cael ei bennu ar eu cyfer ar gyfer unrhyw grŵp oedran perthnasol;

b. y nifer derbyn a gaiff ei nodi gan y fformiwla MCSW;

c. y nifer derbyn is sydd wedi'i bennu ar gyfer y grŵp oedran perthnasol;

d. rhesymau'r awdurdod derbyn dros bennu nifer derbyn is na'r nifer a gaiff ei nodi gan y fformiwla MCSW;

e. hawl rhieni sy'n byw yn yr ardal berthnasol i gyfeirio gwrthwynebiad ynglŷn â'r nifer derbyn i Weinidogion Cymru;

f. y dyddiad cau ar gyfer cyfeirio gwrthwynebiad;

g. cyfeiriad Llywodraeth Cymru y dylid anfon gwrthwynebiadau iddo;

h. cyfeiriad a rhif ffôn cyswllt yn yr awdurdod derbyn sy'n gallu darparu rhagor o wybodaeth i rieni am y nifer derbyn neu hawl rhieni i wrthwynebu.

4.7 Ceir hysbysiad drafft yn atodiad A. Os bydd awdurdod derbyn yn cyflwyno hysbysiad o'r fath i fwy nag un ysgol, rhagwelir y bydd y rhesymau dros y nifer is yn cael eu nodi ar wahân ym mhob achos oni bai bod yr un rheswm yn amlwg yn berthnasol i bob ysgol.

### Objections[9]

4.8 Rhaid caniatáu chwe wythnos i gyflwyno gwrthwynebiadau.

4.9 Os bydd rhieni'n gwneud cais am ragor o wybodaeth am y nifer derbyn is arfaethedig, mae'n ofynnol i'r awdurdod derbyn ddarparu'r wybodaeth honno iddynt yn ddi-dâl. Nodir yr wybodaeth y gellir gwneud cais amdani yn y rheoliadau fel a ganlyn:

a. Manylion yr asesiad o nifer derbyn cyfredol yr ysgol (hy copi o gyfrifiad asesu capasiti MCSW ar gyfer y flwyddyn dan sylw a'r wybodaeth ategol, megis cynllun o'r ysgol.)

---

[9] Rheoliadau Addysg (Gwrthwynebiadau i Drefniadau Derbyn) (Cymru) 2006

b. Datganiad gwybodaeth ysgrifenedig am hawl y rhieni i wrthwynebu sy'n esbonio'r canlynol:

- y gellir cyfeirio gwrthwynebiadau at Weinidogion Cymru a fydd yn penderfynu a ddylid derbyn y gwrthwynebiad, ac i ba raddau;
- maint yr ardal berthnasol lle cynhaliwyd yr ymgynghoriad ar y trefniadau derbyn;
- y cyfyngiadau ar hawl rhiant i wrthwynebu hy:

    i. dim ond rhieni plant 2-5 oed neu rieni plant o oedran ysgol gynradd sy'n byw yn yr ardal ymgynghori ar gyfer yr ysgol all wrthwynebu;

    ii. byddai'n rhaid i 5 rhiant gyflwyno'r un math o wrthwynebiad cyn i'r mater gael ei ystyried gan Weinidogion Cymru.

4.10 Ar ôl cyfeirio gwrthwynebiad, bydd Gweinidogion Cymru yn penderfynu a ddylid derbyn y gwrthwynebiad ac, os felly, i ba raddau. Cyflwynir y penderfyniad yn ysgrifenedig i bob un o'r gwrthwynebwyr, ac i bawb a oedd yn ymgyngoreion statudol ar gyfer y trefniadau derbyn. Nodir y rhesymau dros y penderfyniad yn yr hysbysiad, a gyhoeddir hefyd ar wefan Llywodraeth Cymru yn www.dysgu.cymru.gov.uk o fewn 14 diwrnod i'r penderfyniad.

# Atodiad A

**Hysbysiad drafft o benderfynu ar nifer derbyn is na'r nifer a bennir gan yr asesiad o gapasiti a gyfrifir trwy ddefnyddio fformiwla Llywodraeth Cymru "Mesur Capasiti Ysgolion yng Nghymru"**

[Enw'r awdurdod derbyn (awdurdod lleol neu gorff llywodraethu) a'r ysgol/ysgolion sy'n destun penderfynu ar nifer derbyn is.]

1. HYSBYSIR yn unol ag adran 89A a 90 o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998, Rheoliad 11(1)(b) o Reoliadau Addysg (Penderfynu Trefniadau Derbyn) (Cymru) 2006 a Rheoliadau 5 a 7 o Reoliadau Addysg (Gwrthwynebiadau i Drefniadau Derbyn) (Cymru) 2006 bod [enw'r awdurdod derbyn] wedi penderfynu derbyn [nifer] o ddisgyblion [oedran perthnasol] oed i'r ysgol o [dyddiad].

2. Y nifer derbyn a gyfrifwyd trwy ddefnyddio fformiwla asesu capasiti ysgolion Llywodraeth Cymru, "Mesur Capasiti Ysgolion yng Nghymru" (MCSW) yw [nodwch y nifer derbyn].

3. Dyma'r rhesymau dros benderfynu ar nifer derbyn is: [nodwch y rhesymau].

4. Gall rhieni [plant rhwng 2 a 5 oed a'r rheini sy'n derbyn addysg gynradd] sy'n byw yn ardal berthnasol yr ysgol gyfeirio gwrthwynebiad ynglŷn â'r nifer derbyn is hwn i Weinidogion Cymru.

5. Dylid cyflwyno gwrthwynebiadau o fewn 6 wythnos i ddyddiad cyhoeddi'r hysbysiad hwn; yn yr achos hwn, erbyn [nodwch y dyddiad 6 wythnos ar ôl dyddiad cyhoeddi'r hysbysiad].

6. Dylid anfon gwrthwynebiadau i'r Is-adran Rheolaeth ac Effeithiolrwydd Ysgolion, Yr Adran Addysg a Sgiliau, Llywodraeth Cymru, Adeiladau'r Goron, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

7. Gallwch gael rhagor o wybodaeth am y nifer derbyn arfaethedig hwn neu am hawl y rhieni i wrthwynebu gan [enw'r awdurdod derbyn] yn [cyfeiriad yr awdurdod derbyn] neu dros y ffôn ar [rhif ffôn cyswllt priodol].

[Dyddiad yr hysbysiad]
[Cadeirydd y Bwrdd Llywodraethu/Swyddog perthnasol yr Awdurdod Lleol]

**Nodyn Esboniadol**

[Mae'n arfer da i gynnwys nodyn sy'n esbonio diben yr hysbysiad. Mae'r nodyn yn ddewisol ac nid yw'n rhan o'r hysbysiad.]

Enghraifft o nodyn esboniadol: "Mae nifer derbyn ysgol, o'i gynnwys yn y trefniadau derbyn cyhoeddedig, yn pennu nifer y disgyblion a dderbynnir i'r ysgol bob blwyddyn, ac fe'i cyfrifir trwy ddefnyddio canllawiau Llywodraeth Cymru "Mesur Capasiti Ysgolion yng Nghymru" (2006). Mae'r awdurdod derbyn [awdurdod lleol xx neu gorff llywodraethu ysgol xx] am bennu nifer derbyn sy'n is na'r nifer y mae'r cyfrifiad yn ei

nodi, ac mae'n rhaid iddo gyhoeddi hysbysiad o'i fwriad fel y gall rhieni plant rhwng 2 ac 11 oed sy'n byw yn yr ardal gael y cyfle i gyflwyno gwrthwynebiad i Weinidogion Cymru ynglŷn â'r nifer is hwn, os yw hynny'n briodol yn eu barn hwy."

# Atodiad B

## Dogfennau cysylltiedig

- Deddf Fframwaith a Safonau Ysgolion 1998
- Rheoliadau Addysg (Penderfynu Trefniadau Derbyn) (Cymru) 2006
- Rheoliadau Addysg (Gwrthwynebiadau i Drefniadau Derbyn) (Cymru) 2006
- Rheoliadau Ysgolion Newydd (Derbyniadau) (Cymru) 2006
- Rheoliadau Addysg (Amrywio Trefniadau Derbyn) (Cymru) 2006
- Rheoliadau Deddf Addysg 2002 (Darpariaethau Trosiannol a Diwygiadau Canlyniadol) (Cymru) 2006
- Gorchymyn Deddf Addysg 2002 (Cychwyn Rhif 8) (Cymru) 2006
- Cod Derbyn i Ysgolion Llywodraeth Cynulliad Cymru (Llywodraeth Cymru erbyn hyn), dogfen 002/2009
- Y Cod Apelau Derbyn i Ysgolion Llywodraeth Cynulliad Cymru (Llywodraeth Cymru erbyn hyn), dogfen 003/2009